

# Pecyn Dogfen Cyhoeddus



At: Aelodau'r Cabinet

Dyddiad: 10 Chwefror 2021

Rhif Union: 01824712568

ebost: [democrataidd@sirddinbych.gov.uk](mailto:democrataidd@sirddinbych.gov.uk)

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CABINET, DYDD MAWRTH, 16 CHWFROR 2021** am **10.00 am TRWY CYFRWNG FIDEO.**

Yn gywir iawn

G Williams

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

## AGENDA

### **RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL YN Y RHAN HON O'R CYFARFOD**

#### **1 YMDDIHEURIADAU**

#### **2 DATGANIADAU O FUDDIANT**

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

#### **3 MATERION BRYG**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

#### **4 COFNODION (Tudalennau 7 - 18)**

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd 19 Ionawr 2021 (copi ynghlwm).

**5 STRATEGAETH AR NEWID HINSAWDD A NEWID ECOLEGOL CYNGOR SIR DDINBYCH (2021 - 2029)** (Tudalennau 19 - 88)

Ystyried adroddiad ar y cyd gan y Cyngorwyr Brian Jones, Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd a Tony Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau (copi ynghlwm) yn cyflwyno'r ddogfen strategaeth derfynol i'r Cabinet ei ystyried, ac argymhell i'r Cyngor ei mabwysiadu.

**6 ADOLYGU'R POLISI ENWI A RHIFO STRYDOEDD** (Tudalennau 89 - 114)

Ystyried adroddiad gan y Cyngorydd Richard Mainon, Aelod Arweiniol Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfeiriad Strategol (copi ynghlwm) yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer newidiadau arfaethedig i Bolisi Enwi a Rhifo Strydoedd y Cyngor.

**7 RHAGLEN TRAWSNEWID TREFI LLYWODRAETH CYMRU** (Tudalennau 115 - 138)

Ystyried adroddiad gan y Cyngorydd Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol yr Economi a Llywodraethu Corfforaethol (copi ynghlwm) yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ddirprwyo awdurdod ar gyfer dibenion sicrhau buddsoddiad adfywio yn Sir Ddinbych o Raglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru.

**8 ARGYMHELLION Y GRŴP BUDDSODDI STRATEGOL** (Tudalennau 139 - 146)

Ystyried adroddiad gan y Cyngorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi ynghlwm) yn gofyn am gefnogaeth y Cabinet ar gyfer prosiectau a nodwyd ar gyfer eu cynnwys yng Nghynllun Cyfalaf 2021/22.

**9 ADRODDIAD CYLLID** (Tudalennau 147 - 164)

Ystyried adroddiad gan y Cyngorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi ynghlwm) ynglŷn â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb.

**10 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL** (Tudalennau 165 - 168)

Derbyn Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol amgaeedig y Cabinet a nodi'r cynnwys.

**RHAN 2 - MATERION CYFRINACHOL**

Dim eitemau.

## **MEMBERSHIP**

### **Y Cynghorwyr**

**Hugh Evans  
Bobby Feeley  
Huw Hilditch-Roberts  
Richard Mainon**

**Tony Thomas  
Julian Thompson-Hill  
Brian Jones  
Mark Young**

### **COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth  
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd  
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cod Ymddygiad Aelodau

## DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,  
(enw)

\*Aelod /Aelod cyfetholedig o  
(\*dileuer un)

Cyngor Sir Ddinbych

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant **\*personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-  
(\*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(Gweler y nodyn isod)\*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## CABINET

Cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd trwy gyfrwng fideo gynadledda, ddydd Mawrth 19 Ionawr 2021 am 10.00am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol yr Economi a Llywodraethu Corfforaethol; Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth; Huw Hilditch-Roberts, Aelod Arweiniol Addysg, Gwasanaethau Plant ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd; Brian Jones, Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd; Richard Mainon, Aelod Arweiniol Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfeiriad Strategol; Tony Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau; Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol, a Mark Young, Aelod Arweiniol Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chymunedau Mwy Diogel.

**Arsylwyr:** Cynghorwyr Jeanette Chamberlain-Jones, Meirick Davies, Hugh Irving, Alan James, Barry Mellor, Melvyn Mile, Paul Penlington, Peter Scott, Glenn Swingler, Graham Timms ac Emrys Wynne

## HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (JG); Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Cymunedau (NS) ac Economi a'r Parth Cyhoeddus (GB); Penaethiaid Gwasanaeth: Y Gyfraith, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Democrataidd (GW) a Chyllid ac Eiddo (SG); Rheolwr Cludiant Teithwyr (PD); Swyddog Arweiniol Tai Cymunedol (GD); Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (SP), a Gweinyddwr Pwyllgorau (KEJ a RTJ)

## PWYNT SYLW – Y DIWEDDARAF AM COVID-19

Croesawodd yr Arweinydd bawb i'r cyfarfod ac roedd yn gobeithio y byddai 2021 yn flwyddyn fwy cadarnhaol wrth i'r rhaglen frechu gael ei gweithredu ac y byddai rhywfaint o normalrwydd yn dychwelyd.

Rhoddodd y Prif Weithredwr drosolwg o'r sefyllfa bresennol o ran Covid-19 yn Sir Ddinbych a Chymru yn ehangach ar gais yr Arweinydd. Roedd y ffigurau diweddaraf yn dangos bod lle am obaith gofalus ein bod wedi cyrraedd uchafbwynt yr heintiau o ran y nifer o heintiau, ond roedd yna nifer sylweddol o breswylwyr oedd dal i fod yn eithriadol o wael gyda Covid-19 yn yr ysbyty. Y gyfradd achosion yn Sir Ddinbych oedd 369.7 fesul 100,000 o'r boblogaeth, o gymharu â 406 yr wythnos flaenorol, roedd hyn yn uwch na'r cyfartaledd Cymreig o 306.1, ond roedd cyfraddau heintiau yn disgyn ar draws y mwyafrif o Gymru. Roedd y rhaglen frechu yn parhau yn ddi-oed gyda 27,000 o bobl wedi'u brechu yng ngogledd Cymru, ac roedd y mwyafrif helaeth ohonynt yn y grwpiau risg uchel, gyda 35,000 o frechiadau pellach wedi'u cynllunio ar gyfer yr wythnos bresennol, gan arwain at lefel uwch o amddiffyniad mewn cartrefi gofal. Serch hynny, mae Covid-19 dal i fod yn ein cymunedau a gofynnwyd i bawb ailadrodd y negeseuon pwysig o ran cadw pellter cymdeithasol, gwisgo masg, mesurau hylendid a chyfyngu ar gysylltiadau.

## 1 YMDDIHEURIADAU

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 DATGANIADAU CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorwyr Bobby Feeley a Huw Hilditch-Roberts gysylltiad personol ag eitem 6 ar y rhaglen – Sefydlu Partneriaeth Chwaraeon Gogledd Cymru, gan eu bod ill dau'n Gyfarwyddwyr Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig.

## 3 MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw fater brys.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2020.

**PENDERFYNWYD** *derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2020 fel cofnod cywir.*

## 5 CYNLLUN BRYS AR GYFER BYSIAU

Cyflwynodd y Cynghorydd Brian Jones, Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i gytuno i'r Cynllun Brys ar gyfer Bysiau a sefydlu perthynas gyda Chyngor Sir y Fflint fel yr awdurdod arweiniol rhanbarthol.

Roedd yr adroddiad yn manylu ar y cyd-destun a chefnidir ehangach i'r Cynllun Brys ar gyfer Bysiau yn cynnwys cynigion Llywodraeth Cymru i ddiwygio gwasanaethau bws yn y dyfodol, ynghyd â manylion cymorth ariannol (amodol) sydd eisoes yn cael ei ddarparu i'r sector bysiau, a weinyddwyd yn ddiweddar gan Gyngor Sir y Fflint fel awdurdod arweiniol rhanbarthol ar gyfer gogledd Cymru, ond yn cael ei ddisbarthu ar ôl cytundeb rhanbarthol. Y cam nesaf o fewn y broses honno ydi Cynllun Brys ar gyfer Bysiau 2 gyda Llywodraeth Cymru yn cynnig cytundeb gyda gweithredwyr ac awdurdodau lleol i amddiffyn gwasanaethau bysiau am gyfnod cychwynol hyd at 31 Gorffennaf 2022, oni bai bod amodau'r farchnad yn gwella ddigon gan olygu nad oedd angen cefnogaeth bellach. Manteision y cytundeb fyddai diogelu gwasanaethau tuag at lefelau cyn Covid a darparu sail gyfreithiol gadarn ar gyfer y cyllid ychwanegol, a chynnig rhywfaint o ddylanwad i awdurdodau lleol o'r hyn arferai fod yn wasanaethau masnachol. Roedd hefyd yn darparu capasiti ychwanegol ar gyfer cludiant i'r ysgol. Roedd y peryglon yn cynnwys gweithredwyr bysiau yn gwrthod cytuno, ond roedd y mwyafrif yn agos at wneud, felly os na fyddai Sir Ddinbych yn cytuno, roedd yr awdurdod yn llai tebygol o fod mewn sefyllfa i ddylanwadu ar lefelau gwasanaeth bysiau, a byddai'n anghydwedd ag awdurdodau eraill yn y rhanbarth.

Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth a ddilynodd -



- gan ymateb i gwestiynau gan y Cyngorydd Mark Young, cadarnhaodd y Rheolwr Cludiant Teithwyr bod gwaith yn mynd rhagddo gyda Thrafnidiaeth Cymru i sicrhau atebolrwydd democrataidd wrth symud ymlaen a byddai'r Aelod Arweiniol yn gweithio i sicrhau bod anghenion Sir Ddinbych yn cael eu bodloni a'u craffu.

Cytunwyd y byddai aelodau yn cael gwybod am drefniadau llywodraethu yn y dyfodol ar ôl iddynt gael eu sefydlu. O ran darpariaeth gwasanaethau bysiau a sicrhau bod teithwyr yn teimlo'n ddiogel tra'n teithio, darparwyd rhywfaint o ystadegau ar lefelau teithwyr oedd yn dangos bod teithwyr bellach yn fwy hyderus yn defnyddio gwasanaethau bws, gyda lefelau teithwyr tua 10-12% yn ystod y cyfnod clo cyntaf, o'i gymharu â 23% yn y cyfnod clo presennol. Cyfeiriwyd hefyd at y drefn glanhau llym er mwyn sicrhau diogelwch y cyhoedd tra'n teithio a chyflwyno'r drefn o archebu seddi ymlaen llaw ar rai gwasanaethu, gan roi lefel ychwanegol o hyder. Serch hynny, roedd cydnabyddiaeth y byddai'n cymryd amser i ddychwelyd i ryw fath o normalrwydd a lefelau teithwyr cyn Covid.
- tynnwyd sylw at bwysigrwydd gwasanaethau bysiau mewn ardaloedd gwledig oedd yn anodd i'w cynnal a chadarnhaodd y Cyngorydd Brian Jones bod trafodaethau lefel uchel yn cael eu cynnal ar hyn o bryd oedd yn ymwneud yn benodol ag anghenion gwledig ac roedd cefnogaeth ar gael o ran hynny gan aelodau arweiniol ar lefel ranbarthol.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Cyngorydd Jones am y sicrwydd yna ac roedd yn falch gallu nodi bod yr effaith ar ardaloedd gwledig yn uchel ar yr agenda ac y gallai ymagwedd ranbarthol ddarparu cyfle ar gyfer datrysiad mwy arloesol i fodloni anghenion gwledig. Roedd yn cefnogi'r ymagwedd ranbarthol gan ei fod yn darparu gwasanaethau mwy cynaliadwy ac yn sicrhau dialog well gyda gweithredwyr ar lefel is-ranbarthol.
- eglurwyd mai amharodrwydd rhai gweithredwyr i ymuno â'r cytundeb oedd maint penodol yr elw a osodwyd ar 2%, ac roedd gweithredwyr yn teimlo oedd yn atal buddsoddiad yn y dyfodol a phryderon y gallai awdurdodau lleol a Thrafnidiaeth Cymru ddylanwadu ar y gwasanaethau a weithredir.

Roedd trafodaethau yn parhau yr wythnos honno gyda gweithredwyr a Thrafnidiaeth Cymru, ond o ystyried pwysigrwydd y cynllun, disgwyliwyd y byddai materion yn cael eu cwblhau ac y byddai pawb mewn sefyllfa i arwyddo'r cytundeb
- cydnabuwyd amharodrwydd posibl pobl i ddychwelyd i ddefnyddio cludiant cyhoeddus ar ôl Covid a fyddai'n debygol o gael ei ddylanwadu gan ba mor hir y byddai'r pandemig yn parhau a phatrymau oedd yn newid megis siopa ar-lein a llai o gymudo allai ddod yn rhywbeth sefydlog.

Serch hynny, roedd y cynllun yn hyblyg ac yn cydnabod y gallai niferoedd teithwyr gynyddu'n sylweddol neu fod yn destun twf sefydlog. Ers mis Gorffennaf, bu twf o tua 60% o gapasiti cyn Covid mewn rhai ardaloedd a byddai'n cymryd amser i gyrraedd 100%, ond os na chyrhaeddir lefelau cyn Covid, yn anrffod byddai angen trafod cwestiynau am y cydbwysedd rhwng cefnogaeth gyhoeddus a refeniw masnachol.
- cafwyd trafodaeth am effaith buddsoddiad mewn bysiau yn y dyfodol o ran technolegau amgylcheddol megis cerbydau hydrogen neu drydan, yn enwedig o ystyried y terfyn 2% ar elw yn y cytundeb a nod Llywodraeth Cymru na fydd gan fysiau unrhyw allyriadau o'r bibell egsôst erbyn 2028. Hyd yn oed petai niferoedd teithwyr yn dychwelyd i'r lefelau normal, roedd lle i gredu y byddai'n

anodd amnewid y fflyd bresennol yn unol â'r nod hwnnw a bod yna drafodaeth barhaus ynglŷn â hynny - roedd yn debygol y byddai angen rhagor o gyllid.

- Mewn cysylltiad â deddfwriaeth berthnasol ers i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd, cyfeiriodd Pennaeth y Gyfraith, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Democrataidd at '*State Aid Revocations Amendments EU Exit Regulations 2020*', oedd fod i ddod i rym ddechrau'r flwyddyn, a chadarnhaodd y gellir darparu cyngor cyfreithiol wedi hynny y tu allan i'r cyfarfod.

**PENDERFYNWYD** y byddai'r Cabinet yn –

- cytuno ag egwyddorion cytundeb Cynllun Brys ar gyfer Bysiau 2 (fel y manylir yn Atodiad 2 yr adroddiad) i sicrhau cymorth ariannol (amodol) i'r sector bysiau ac i sefydlu perthynas â Chyngor Sir y Fflint fel yr awdurdod arweiniol rhanbarthol a'r llofnodwr, sy'n sicrhau bod yr arian brys parhaus yn bodloni blaenoriaethau'r awdurdod ac yn cael ei ddarparu ar ei ran, a*
- maes o law, i alw am adroddiad pellach ar gynigion i ddiwygio bysiau mewn perthynas â rheoli gwasanaethau bysiau yng Nghymru yn y dyfodol.*

## **6 SEFYDLU PARTNERIAETH CHWARAEON GOGLEDD CYMRU**

Cyflwynodd y Cyngorydd Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth yr adroddiad yn ceisio cefnogaeth y Cabinet mewn egwyddor i sefydlu Partneriaeth Chwaraeon Gogledd Cymru.

Darparwyd rhywfaint o gefndir o ran rôl Chwaraeon Cymru oedd wedi darparu arian i awdurdodau lleol yn hanesyddol, a phartneriaid eraill i ymgymryd â rhaglenni ac ymyraethau chwaraeon. Roedd yr adroddiad yn canolbwyntio ar y cynnig arfaethedig i sefydlu partneriaeth Chwaraeon Gogledd Cymru rhanbarthol newydd yn cynnwys awdurdodau lleol eraill gogledd Cymru a phartneriaid allweddol, gan weithio gyda gweledigaeth a rennir a fydd o fudd i'r rhanbarth. Petai'n cael ei gymeradwyo, byddai'r cyllid cronus gan Chwaraeon Cymru (tua £2.7 miliwn y flwyddyn) yn cael ei gyfeirio trwy Chwaraeon Gogledd Cymru gyda chyfanswm dangosol y cyllid am 5 mlynedd rhwng 2021/22 a 2025/26 yn £13,529,494. Cyfeiriodd y Cyngorydd Feeley at gyfranogiad Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig yn y bartneriaeth, ac achubodd ar y cyfle i roi teyrnged i'r staff am eu hymateb i'r heriau a wynebwyd ac am gyfrannu mewn meysydd gwasanaeth eraill er mwyn ymateb i bandemig y Coronafeirws.

Fe arweiniodd Pennaeth y Gyfraith, Adnoddau Dynol a'r Gwasanaethau Democrataidd yr aelodau trwy gyfreithlondeb yr adroddiad, yn cynnwys egwyddor Chwaraeon Gogledd Cymru a'r telerau er mwyn gweithredu, gan dynnu sylw penodol at y model i gael ei fabwysiadu gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn awdurdod cynnal ynghyd â sail y cyllid a threfniadau llywodraethu. Fe argymhellwyd bod Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig yn cynrychioli'r Cyngor ar y Bwrdd Llywodraethu o ystyried eu harbenigedd a'r swyddogaethau y mae'n eu gwneud ar ran y Cyngor. Byddai Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig yn adrodd yn rheolaidd trwy gyfarfodydd rheoli contract a'r Bwrdd Llywodraethu Strategol. Roedd yr amserlenni i gymeradwyo'r Cytundeb Rhyng-Awdurdod erbyn 22 Ionawr 2021 wedi golygu diwygiad arfaethedig i argymhelliad yr adroddiad i roi awdurdod

dirprwyedig o ran hynny. Roedd adroddiad templed wedi cael ei lunio er mwyn i'r awdurdodau geisio cymeradwyaeth ar gyfer y cynnig drwy eu prosesau ac roedd y cyfeiriad at Wrecsam ym mharagraff 4.1 wedi cael ei gynnwys mewn camgymeriad, a dylid ei anwybyddu.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at bwysigrwydd sicrhau atebolrwydd clir fel y nodwyd gan Bennaeth y Gyfraith, Adnoddau Dynol a'r Gwasanaethau Democrataidd, a nodwyd os na fyddai Sir Ddinbych yn cymryd rhan, ni fyddai modd iddynt arfer unrhyw ddylanwad, ond roedd yna berygl y gallai blaenoriaethau lleol gael eu gwanhau o ganlyniad i ymagwedd ranbarthol. Pwysleisiodd y pwysigrwydd bod cynrychiolydd o'r Cyngor ar y Bwrdd Lywodraethu er mwyn tynnu sylw at anghenion a dyheadau lleol wrth symud ymlaen. Cadarnhaodd Pennaeth y Gyfraith, Adnoddau Dynol a'r Gwasanaethau Democrataidd bod y gweithgareddau a ariennir trwy Chwaraeon Gogledd Cymru yn cael eu cyflwyno gan Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig ar ran y Cyngor ac roedd strwythurau llywodraethu yn eu lle yn sicrhau deialog barhaus rhwng Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig a'r Cyngor mewn cysylltiad â hynny. O ran yr ymagwedd ranbarthol, peilot ydi Gogledd Cymru, a bwriad Chwaraeon Cymru ydi sefydlu pump partneriaeth ranbarthol ar draws Cymru. Cyfnod cychwynnol y cytundeb ydi pum mlynedd a byddai'n dod i ben yn awtomatig wedi hynny oni bai bod pob partner yn cytuno i'w ymestyn, neu bod pob partner yn cytuno i'w ddirwyn i ben cyn diwedd y pum mlynedd. Gan ymateb i ragor o gwestiynau ynglŷn â chyllid, cafodd yr aelodau wybod y byddai Chwaraeon Cymru yn darparu cyllid i Chwaraeon Gogledd Cymru i'w ddsbarthu ar draws y rhanbarth; nid oedd y Cyngor yn cyfrannu unrhyw gostau cyllido.

***PENDERFYNWYD y byddai'r Cabinet yn –***

- (a) *cefnogi mewn egwyddor sefydlu Partneriaeth Chwaraeon Gogledd Cymru ac yn dirprwyo awdurdod i Bennaeth y Gyfraith, Adnoddau Dynol a'r Gwasanaethau Democrataidd mewn ymgynghoriad gyda'r Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth a Swyddog Adran 151 i gymeradwyo telerau'r Cytundeb Rhyng-Awdurdod terfynol, a*
- (b) *phenodi Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig i gynrychioli'r Cyngor ar Fwrdd Llywodraethu Partneriaeth Chwaraeon Gogledd Cymru gan weithredu fel asiant i'r Cyngor.*

**7 GOSOD RHENT TAI A CHYLLIDBAU REFENIW TAI A CHYFALAF 2021/22**

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer cynnydd rhent blynyddol Tai Sir Ddinbych, Cyfalaf y Cyfrif Refeniw Tai a Chyllidebau Refeniw ar gyfer 2021/22 a'r Cynllun Busnes Stoc Dai.

Fe arweiniodd y Cynghorydd Thompson-Hill yr aelodau drwy'r adroddiad gan fanylu ar ffigurau'r gyllideb a thybiaethau o ran lefel incwm a gyfrifwyd er mwyn gallu cyflwyno gwasanaethau refeniw, y rhaglen buddsoddi cyfalaf i gynnal safonau ansawdd tai ac i ddatblygu'r rhaglen adeiladu newydd. O ran y cynnydd rhent blynyddol cyhoeddodd Llywodraeth Cymru bolisi rhent pum mlynedd ym mis Rhagfyr 2019 ar gyfer rhent tai cymdeithasol ac mae setliad y rhenti wedi'u cyfrifo

gan ystyried y polisi a'r mecanwaith hwnnw ar gyfer codi rhent. Y cynnydd ar gyfer 2021/22 oedd 1.5% gan arwain at rent wythnosol cyfartalog o £93.89 (cynnydd o £1.38 mewn rhent wythnosol cyfartalog). Nid oedd cynnig i ddefnyddio'r tâl dewisol o hyd at £2 yr wythnos ar gyfer eiddo. Yn rhan o'r broses gosod rhent, rhoddwyd ystyriaeth i fforddiadwyedd tenantiaid, gwerth am arian ac asesiad o effeithiolrwydd cost. Roedd adolygiad blynyddol Cynllun Busnes y Stoc Dai y dangos ei fod yn parhau'n gadarn ac yn ariannol hyfyw ac roedd digon o adnoddau ar gyfer cefnogi'r gwasanaeth tai ac anghenion y stoc am fuddsoddi.

Tynnodd y Swyddog Arweiniol – Tai Cymunedol sylw at yr angen i gydbwyso lefel mewn cynnydd rhent er mwyn gallu talu costau yn y dyfodol yn erbyn fforddiadwyedd tenantiaid. Yn sgil lefel chwyddiant, dyma oedd y cynnydd rhent isaf ers peth amser, ac i denantiaid sy'n derbyn budd-dal tai, byddai'r hawl i fudd-dal yn cynyddu i dalu am y cynnydd mewn rhent. Roedd y taliadau gwasanaeth cyfartalog, er yn amrywio rhwng eiddo, wedi gostwng rhywfaint.

Wrth ystyried yr adroddiad, trafodwyd y materion canlynol ymhellach gyda'r Cynghorydd Julian Thompson-Hill a'r Swyddog Arweiniol – Tai Cymunedol -

- Dywedodd y Cynghorydd Mark Young ei fod yn adroddiad gonest oedd yn nodi'n glir y rhesymau dros gynyddu rhent, ond gofynnodd am ragor o sicrwydd ynglŷn â'r elfen fforddiadwyedd, yn enwedig o ystyried y gostyngiad posibl mewn taliadau Credyd Cynhwysol a'r caledi ariannol roedd tenantiaid yn eu hwynebu.  
Cafodd wybod waeth beth yw lefel y Credyd Cynhwysol, os ydi tenantiaid yn gymwys i gael budd-dal byddai unrhyw gynnydd yn y rhent a thâl gwasanaeth yn cael ei gynnwys. Rhoddwyd sicrwydd bod y gwasanaeth wedi bod yn cefnogi tenantiaid yn rhagweithiol ac roedd telerau ad-dalu fforddiadwy'n cael eu cynnig os oeddynt yn mynd i ddyled, heb fygythiad o weithred gyfreithiol. Rhoddwyd teyrnged hefyd i Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych am ddarparu cefnogaeth werthfawr a chyngor am gyllidebu i denantiaid. Roedd gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn Sir Ddinbych yr un cyfrifoldebau o ran safonau datgarboneiddio a buddsoddi mewn stoc dai, ond rhenti'r Cyngor oedd yr isaf, ond yr un safon o wasanaeth a ddarperir. Roedd data'r llynedd yn dangos bod rhenti'r Cyngor ar ochr isaf y raddfa o ran rhent targed Llywodraeth Cymru, ac mae'n debygol y bydd rhagor o denantiaid yn disgyn o dan y rhent targed eleni, gan ddangos gwasanaeth ardderchog am gost isel i denantiaid.
- er ei bod yn gwerthfawrogi'r angen am adolygiad blynyddol a'r achos dros gynyddu rhent, roedd y Cynghorydd Bobby Feeley yn cwestiynu amseru'r cynnydd yng ngoleuni'r caledi ariannol a achoswyd gan y pandemig, ac fyddai hi'n bosibl i oedi'r cynnydd tan y flwyddyn ganlynol.  
Cafwyd eglurhad nad ydi'r ddeddfwriaeth yn caniatáu hawlio incwm yn ôl-weithredol a'r flwyddyn nesaf dim ond CPI +1 oedd posibl ei ystyried, a'r tâl dewisol o £2 o bosibl, ond byddai'n gosod cynnydd uwch ar denantiaid mewn un blwyddyn yn hytrach na'i ymestyn dros ddwy flynedd. Byddai hefyd yn arwain at lai o incwm yn y flwyddyn ariannol nesaf a fyddai o bosibl yn effeithio ar hyfywedd Cynllun Busnes y Stoc Dai wrth symud ymlaen. Roedd lles tenantiaid yn ystyriaeth allweddol ac roedd y cynnydd wedi cael ei drafod gyda Ffederasiwn Tenantiaid a Phreswylwyr Sir Ddinbych. Fe nodwyd y byddai'r cynnydd yn cael ei gynnwys gan y budd-dal tai mewn dros dau draean o'r

achosion, a byddai gweddill y tenantiaid yn cael eu cefnogi gymaint â phosibl. Yn y gorffennol, roedd y cynnydd mewn rhent werth tua £800,000 y flwyddyn, ond byddai'r cynnig presennol tua £240,000 a byddai rhent di-symud heb unrhyw gynnydd yn arwain at golled yn agos at £1miliwn mewn pedair blynedd. Byddai hyn yn effeithio ar fuddsoddi yn y stoc dai a darpariaeth gwasanaeth i denantiaid. Er yn gwerthfawrogi'r cynnydd i denantiaid, roedd y rhent dal yn llawer is na lefel rhent targed Llywodraeth Cymru.

- o ran polisi rhent pum mlynedd Llywodraeth Cymru ar gyfer rhenti tai cymdeithasol, fe ailadroddwyd bod y polisi yn cytuno ar gynnydd rhent blyneddol o ddim mwy na CPI +1% gyda ffi £2 yr wythnos yn ychwanegol ar gartrefi unigol ar yr amod nad oedd y rhent yn cynyddu mwy na CPI +1%.  
Roedd awdurdodau lleol eraill yng ngogledd Cymru hefyd yn codi rhenti gyda rhai yn bwriadu defnyddio'r cynnydd £2 wythnosol yn hytrach na CPI+1%. Roedd rhenti targed Llywodraeth Cymru wedi codi 11.5% dros y pedair blynedd diwethaf, ond dim ond 9% oedd y cynnydd yn rhenti'r Cyngor dros y cyfnod hwnnw. Wrth ystyried y cynnydd arfaethedig mewn rhent, mae lefelau rhent Sir Ddinbych yn parhau i fod yn llawer is na rhent targed Llywodraeth Cymru. Cyfeiriwyd hefyd at y buddsoddiad yn y stoc dai yn cynnwys gwneud eiddo yn fwy effeithlon o ran ynni a fyddai'n arwain at filiau tanwydd is i denantiaid.
- Mynegodd y Cynghorydd Glenn Swingler bryderon am y terminoleg a ddefnyddiwyd yn yr Asesiad o Effaith ar Les gan gyfeirio at y pryder y byddai gan Tai Sir Ddinbych nifer anghymesur o aelwydydd tlotach yn sgil ei rent is. Roedd y Swyddog Arweiniol yn derbyn y pwynt a chytunodd i ail eirio'r ddogfen. Fe eglurodd bod yr Asesiad o'r Effaith ar Les wedi cael ei gynnal gyda thenantiaid ac roedd yna bryder blaenorol ynglŷn â'r dull roedd cymdeithasau eraill wedi'u cymryd o ran asesiad fforddiadwyedd a chymhwyster ar gyfer tenantiaethau wedi dyddio.

Rhoddodd y Cabinet deyrnged i waith gwasanaethau tai, mewn partneriaeth gyda Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych wrth gefnogi tenantiaid i reoli eu cyllid yn effeithiol ac i wneud y mwyaf o'u hincwm, a'r ymagwedd sensitif i ddelio â thenantiaid sydd mewn trafferthion ariannol. Ar ôl ystyried ffigurau'r gyllideb a'r cynnydd arfaethedig mewn rhent, ac ar ôl ystyried fforddiadwyedd i denantiaid a'r lefel o fuddsoddiad yn y stoc dai yn y dyfodol, roedd yna gefnogaeth gyffredinol i'r argymhellion.

#### **PENDERFYNWYD -**

- (a) mabwysiadu Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2021/22 (Atodiad 1 i'r adroddiad) a Chynllun Busnes y Stoc Dai (Atodiad 2 i'r adroddiad);*
- (b) cynyddu rhent anheddau'r Cyngor yn unol â Pholisi Llywodraeth Cymru ar gyfer Rhent Tai Cymdeithasol i rent wythnosol cyfartalog o £93.89 i'w weithredu o ddydd Llun 5 Ebrill 2021;*
- (c) nodi'r adroddiad ychwanegol (Atodiad 3 i'r adroddiad) am Effeithiolrwydd Cost, Fforddiadwyedd a Gwerth am Arian, a*
- (d) Y Cabinet yn cadarnhau eu bod wedi darllen, deall ac wedi ystyried yr Asesiadau o Effaith ar Les (Atodiad 4 yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.*

Yn y fan hyn (11.25am) cymerodd y pwyllgor egwyl am luniaeth.

## **8 CYLLIDEB 2021/22 – CYNIGION TERFYNOL**

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad a oedd yn amlinellu goblygiadau Setliad drafft Llywodraeth Leol 2021/22 a'r cynigion ar gyfer cyllideb derfynol 2021/22, gan gynnwys lefel Treth y Cyngor.

Darparodd y Cynghorydd Thompson-Hill drosolwg o broses y gyllideb a sefyllfa ddiweddaraf y gyllideb ac ymhelaethodd ar y cynigion i'w hystyried a'r argymhelliad i'r Cyngor llawn er mwyn gosod y gyllideb ar gyfer 2020/21. Roedd y setliad drafft wedi arwain at setliad cadarnhaol o +3.6% (o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o 3.8%) a disgwylir y setliad terfynol ar 2 Mawrth 2021. Roedd pwysau o £9.903 miliwn wedi'u manylu ac roedd effaith defnyddio £685,000 o arian yn 2021/22 yn golygu cyfanswm o ddiffyg gwerth £10.588 miliwn. Roedd y setliad o +3.6% yn cynhyrchu £5.42miliwn gan adael bwlch cyllid o £5.167m gyda chynigion i gau'r bwlch wedi'u nodi yn yr adroddiad a'u hegluro ymhellach yn y cyfarfod. Roedd cynnydd o 3.8% yn Nhreth y Cyngor wedi'i gynnig i gynhyrchu £2.132m o refeniw ychwanegol. Gan fod y setliad terfynol yn hwyr, argymhellwyd bod awdurdod yn cael ei ddirprwyo er mwyn galluogi addasiadau arian parod yng nghynigion y gyllideb hyd at £500,000.

Fe ychwanegodd y Pennaeth Cyllid ac Eiddo bod y gyllideb yn parhau fel arfer gyda thybjaeth y byddai rhywfaint o gefnogaeth yn dod gan Lywodraeth Cymru petai pwysau oedd yn gysylltiedig â Covid yn parhau. Cadarnhaodd hefyd y byddai yna ymgysylltu cynnar gydag aelodau am broses y gyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Canolbwyntiwyd ar y prif faterion trafod a ganlyn -

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Mark Young at y diffyg mewn cyllid a'r blynyddoedd o doriadau i gyllidebau awdurdod lleol a gofynnodd am gynaliadwyedd cyflwyno gwasanaethau yn y dyfodol a gofynnodd am ddiweddariad am geisiadau blaenorol ar gyfer cyllideb tair blynedd i gynorthwyo gyda chynllunio ariannol yn y dyfodol

Ymatebodd yr Arweinydd eu bod wedi gwerthfawrogi'r setliadau cadarnhaol dros y ddwy flynedd diwethaf, yn enwedig o ystyried y sefyllfa ariannol y mae Llywodraeth Cymru a'r DU yn ei hwynebu. Roedd yna ddeialog rheolaidd a chadarnhaol gyda Gweinidog Cymru trwy gydol y pandemig ac roeddynt yn deall yr heriau a'r pwysau oedd llywodraeth leol yn ei wynebu ac mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gefnogol yn y modd maent wedi ymateb i sefyllfa Covid-19. Serch hynny, fe allai etholiadau Senedd Cymru olygu newid mewn Gweinidog allai gael effaith sylweddol. Roedd y Prif Weithredwr yn croesawu'r setliad ariannol oedd yn galluogi'r awdurdod i dalu am y mwyafrif o bwysau gwasanaeth ar gyfer 2021/22, ond nid oedd modd gwarantu y byddai pwysau newydd yn sgil colli incwm oherwydd Covid-19 yn cael ei fodloni. Os na fyddai setliadau yn y dyfodol yn cael eu cynnal ar lefel o'r fath i fodloni pwysau cynyddol, yn enwedig ym maes gofal cymdeithasol, byddai angen gwneud penderfyniadau anodd. Mewn cysylltiad â setliad tair blynedd, fe eglurodd y Pennaeth Cyllid ac Eiddo bod y cynnig gwreiddiol ar gyfer adolygiad cynhwysfawr o wariant wedi cael ei oedi yn sgil Covid-19 ac roedd y Canghellor

wedi cyhoeddi setliad un mlynedd fis Tachwedd diwethaf. Roedd Llywodraeth Cymru angen syniad o'u ffigurau am dair blynedd gan Drysorlys y DU er mwyn gallu bod mewn sefyllfa i ddarparu setliad tair blynedd ar gyfer llywodraeth leol wrth symud ymlaen.

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Glenn Swingler at arbedion o un flwyddyn i'r llall gan ysgolion ac roedd yn teimlo nad oedd hi'n briodol ceisio am ragor o arbedion yng ngoleuni'r anawsterau a wynebwyd yn ymateb i Covid-19 a gofynnodd am y swm o fuddsoddiad mewn ysgolion.

Mewn cysylltiad â'r pecyn o arbedion cyffredinol, gofynnodd a oedd modd edrych eto i ystyried yr elfen fforddiadwyedd i breswylwyr. Fe eglurodd yr Aelod Arweiniol Cyllid bod gwaith wedi bod yn mynd rhagddo ers peth amser gyda Fforwm Cyllideb Ysgolion, ac fel y blynyddoedd diwethaf, i gyflawni 1% o arbedion (roedd disgwyl i bob gwasanaeth arall ddod o hyd i 4%). Roedd yr arbediad o 1% gyfystyr â £733,000 gyda £3.27 miliwn yn ychwanegol wedi'i gynnig i gael ei ddyrannu er mwyn i gyllideb ddirprwyedig ysgolion gynyddu tua £2.5 miliwn fel ffigur net cyffredinol. Roedd y cynnydd i ysgolion ar gyfer gwariant referniw ac roedd buddsoddi mewn ysgolion trwy gyllideb Moderneiddio Addysg ar wahân. Cadarnhaodd yr Aelod Arweiniol Addysg bod Fforwm Cyllideb Ysgolion yn cefnogi'r cynnig, ac roedd yna ennill clir yn y gyllideb. Serch hynny, fe dynnodd sylw at y pwysau ar ysgolion o ran ariannu dysgu cyfunol a rheoliadau Covid-19 ac ati ac roedd gwaith yn mynd rhagddo i geisio unrhyw gyllid allai fod ar gael gan Lywodraeth Cymru i'w gosod yn erbyn y costau a ysgwyddir gan ysgolion. Gan ymateb i'r pwynt a wnaed ynglŷn â pheccyn cyffredinol cynigion y gyllideb fe eglurodd Aelod Arweiniol Cyllid yr opsiwn i naill ai lleihau'r swm yn y cyllid i dalu am bwysau cyllideb (er bod y mwyafrif yn anochel) neu newid swm Treth y Cyngor. Nid oedd yn credu y dylid codi mwy na'r hyn oedd ei angen ar breswylwyr i gyflwyno gwasanaethau, roedd hyn hyd yn oed yn fwy gwir yn y flwyddyn ariannol hon a'r caledi ychwanegol a wynebir yn sgil Covid-19. Nid oedd codi Treth y Cyngor 3.8% yn benderfyniad hawdd o ystyried yr effaith y byddai'n ei gael ar breswylwyr. Petai lefel is yn cael ei argymhell byddai'n golygu na fyddai rhai pwysau ychwanegol yn cael eu bodloni neu doriadau ychwanegol i wasanaethau. O ganlyniad, roedd yn credu bod cynigion y gyllideb yn cynrychioli'r ffordd orau o fynd i'r afael â phwysau gyda'r effaith leiaf negyddol ar breswylwyr.

- gan ymateb i gwestiynau gan y Cynghorydd Paul Penlington ynglŷn â ffigurau'r gyllideb fe eglurodd yr Aelod Arweiniol Cyllid bod y ffigur diffyg yn yr adroddiad cyn mynd i'r afael â Threth y Cyngor, yn fwllch cyllid o £5.167 miliwn. Roedd yr eitemau oedd wedi'u rhestru ym mharagraff 4.4. yr adroddiad yn cael eu cynnig i helpu i gau'r bwllch cyllido gan adael £2.132m oedd gyfystyr â chynnydd o 3.8% yn Nhreth y Cyngor oedd yn cael ei gynnig. Petai Treth y Cyngor yn cael ei osod ar gyfradd is na 3.8% byddai naill ai'n golygu toriadau ychwanegol i wasanaethau neu beidio â bodloni'r holl bwysau a nodwyd ym mharagraff 4.3 yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD** y byddai'r Cabinet yn –

- (a) *nodi effaith Setliad Drafft Llywodraeth Leol 2021/22;*

- (b) *cefnogi'r cynigion a amlinellir yn Atodiad 1 i'r adroddiad, ac y manylir arnynt yn Adran 4 yr adroddiad, ac yn eu hargymell i'r Cyngor llawn er mwyn llunio'r gyllideb yn derfynol ar gyfer 2021/22;*
- (c) *argymell i'r Cyngor y cynnydd cyfartalog arfaethedig o 3.8% yn Nhreth y Cyngor;*
- (d) *argymell i'r Cyngor fod awdurdod yn cael ei ddirprwyo i'r Pennaeth Cyllid ac Eiddo mewn ymgynghoriad â'r Aelod Arweiniol Cyllid i addasu'r defnydd o arian sydd wedi'i gynnwys yng nghynigion y gyllideb o hyd at £500mil os oes yna symud rhwng ffigyrau'r setliad drafft a'r setliad terfynol er mwyn gallu gosod Treth y Cyngor yn amserol, a*
- (e) *cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les a gyflwynwyd fel rhan o'r adroddiad hwn.*

## **9 ADRODDIAD CYLLID**

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad yn rhoi manylion ynglŷn â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb fel yr amlinellir isod -

- y gyllideb refeniw net ar gyfer 2020/21 oedd £208.302 miliwn (£198.538 miliwn yn 2019/20).
- rhagwelir y byddai gorwariant o £2.242miliwn mewn cyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol.
- tynnwyd sylw at y risgiau a thybiaethau presennol yn ymwneud â meysydd gwasanaeth unigol ynghyd ag effaith ariannol Coronafeirws a chyllidebau Model darparu Amgen Hamdden
- manylion o arbedion ac arbedion effeithlonrwydd angenrheidiol o £4.448 miliwn y cytunwyd arno, gan gynnwys cynnwys arbedion corfforaethol sy'n ymwneud ag adolygiad actiwaraid teirblwydd o Gronfa Bensïynau Clwyd (£2 miliwn); 1% arbedion ysgolion (£0.692 miliwn); arbedion gwasanaeth (£1.756 miliwn).
- rhoddwyd diweddiariad cyffredinol am y Cynllun Cyfalaf, y Cyfrif Refeniw Tai a'r Cynllun Cyfalaf Tai.

Fe eglurodd y Cynghorydd Thompson-Hill nad oedd yna newidiadau sylweddol ers adroddiad cyllid y mis blaenorol. Roedd y gorwariant o £2.242 miliwn a ragwelir wedi tybio na fyddai cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru a byddai'r ffigurau yn cael eu diweddarau ar ôl i ni dderbyn y cyllid hwnnw yn unol â'r arfer blaenorol. O ran y Prosiectau Cyfalaf roedd y mwyafrif yn datblygu yn unol â'r disgwyliadau, ac o ran Ailddatblygu Marchnad y Frenhines y Rhyl, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru £1.5 miliwn ychwanegol (yn ogystal â'r £5miliwn o ddyraniad dros dro), gan olygu bod cam 1 y prosiect wedi cael ei ariannu'n llawn. Roedd y cais cynllunio a gyflwynwyd ar gyfer y prosiect cyfan. Yn olaf, cyfeiriwyd at y trefniadau grant amrywiol sydd wedi cael eu gweinyddu gan y Cyngor ar ran LIC sy'n ymwneud â Covid-19 dros y deng mis diwethaf, ac mae'r arian sydd wedi'i dalu gan awdurdodau lleol yn fwy na £1 biliwn ac mae Sir Ddinbych wedi talu tua £52 miliwn i fusnesau. Roedd hyn yn brawf o'r Tîm Refeniw a Budd-daliadau yn gweithio'n tu hwnt o galed a rhoddwyd teyrnged i staff mewn cysylltiad â hynny.



Fe dynnodd y Cynghorydd Mark Young sylw at y gefnogaeth ardderchog ac ymateb cyflym roedd y Cyngor wedi'i ddarparu i fusnesau, ond gofynnodd a fyddai rhagor o gymorth ariannol yn dod gan Lywodraeth Cymru o ystyried bod busnesau dal ynghau a'r caledi a achoswyd yn sgil hynny. Fe eglurwyd bod y cyllid a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru dros y cyfnod clo tan 29 Ionawr, ac roeddynt yn tybio y byddai rownd arall o gyllid ar gael petai'r cyfnod clo yn parhau ar ôl y dyddiad hwnnw, ond nid oedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi dim am hynny eto. Byddai'r wybodaeth yn cael ei rhannu â'r aelodau cyn gynted ag y byddai rhagor o wybodaeth ar gael.

**PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2020/21 a'r cynnydd a wnaed yn erbyn y strategaeth gyllidol y cytunwyd arni.

## **10 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET**

Cafodd rhaglen gwaith i'r dyfodol y Cabinet ei gyflwyno i'w ystyried a nodwyd y byddai'r eitem 'Rheolau'r Weithdrefn Gontractau' yn cael ei symud o fis Chwefror i gyfarfod yn y dyfodol yn dibynnu ar ystyriaeth y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio. Gan ymateb i gais gan y Cynghorydd Meirick Davies cytunodd yr Arweinydd i drefnu bod nifer o adroddiadau blaenorol am 'Newidiadau i Bolisi Enwi a Rhifo Strydoedd' oedd wedi'i drefnu at y cyfarfod nesaf yn cael eu hanfon ato o'n uniongyrchol.

**PENDERFYNWYD** nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.30pm.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

<b>Adroddiad i'r</b>	Cabinet
<b>Dyddiad y cyfarfod</b>	16 Chwefror
<b>Swyddog / Aelod Arweiniol</b>	Cynghorydd Brian Jones a'r Cynghorydd Tony Thomas / Judith Greenhalgh
<b>Awdur yr adroddiad</b>	Helen Vaughan-Evans
<b>Teitl</b>	<b>Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol Cyngor Sir Ddinbych (2021-2029)</b>

## **1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

- 1.1. Mae'r adroddiad hwn yn sôn am Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol Cyngor Sir Ddinbych (2021/22 – 2029/30).

## **2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

- 2.1. Cyflwyno'r ddogfen strategaeth derfynol er mwyn i'r Cyngor benderfynu a ddylid ei mabwysiadu neu beidio.

## **3. Beth yw'r Argymhellion?**

- 3.1 Bod y Cabinet yn argymhell y dylai'r Cyngor fabwysiadu Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol Cyngor Sir Ddinbych (2021/22 – 2029/30).
- 3.2 Bod y Cyngor yn cadarnhau eu bod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad A) fel rhan o'u hystyriaethau.

## **4. Manylion am yr adroddiad**

- 4.1. Gwnaeth y Cyngor gyhoeddi Argyfwng ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol ar 9 Gorffennaf 2019 a oedd yn cynnwys set o gamau gweithredu ar gyfer y Cyngor, gan

gynnwys y nod i sicrhau bod y Cyngor yn garbon sero net erbyn 2030 fan bellaf, cynyddu bioamrywiaeth yn Sir Ddinbych a llunio cynllun eglur er mwyn cyflawni hyn.

- 4.2. Yn 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gynllun Cyflawni Carbon Isel i Gymru “Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel” a osododd yr uchelgais y byddai'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn garbon sero net erbyn 2030. Bydd gofyn i'r Cyngor gymryd rhan yn Nhrefn Adrodd am Nwyon Tŷ Gwydr Llywodraeth Cymru, a gosod llinell sylfaen, monitro ac adrodd ar y cynnydd tuag at fod yn garbon niwtral (polisi 20) yn flynyddol.
- 4.3. Mae Strategaeth y Cyngor ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol (Atodiad B) yn mynd i'r afael â chwmpas Datganiad Argyfwng y Cyngor ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol a'r hyn sy'n ofynnol gan y Cyngor o dan Drefn newydd Llywodraeth Cymru ar Adrodd am Nwyon Tŷ Gwydr.
- 4.4. Mae'r Strategaeth i gyd yn ymwneud â sicrhau bod y Cyngor yn Garbon Sero Net ac yn Ecolegol Gadarnhaol erbyn 2030. Mae'r ddogfen yn esbonio'r hyn rydyn ni'n ei olygu gyda'r ddau darged hynny, sut mae'r Cyngor yn perfformio gyda'r ddau ar hyn o bryd, sut rydyn ni'n gobeithio bydd 2030 yn edrych i'r Cyngor ar ôl i ni gwrdd â'n hamcanion a'r newidiadau a'r camau gweithredu rydyn ni'n gobeithio'u cyflawni dros y 9 mlynedd nesaf, yn amodol ar sicrhau'r cyllid angenrheidiol. Gellir gweld ffeithluniau sy'n cymharu'r ddau darged ar gyfer 2030 yn Atodiad C.
- 4.5. Mae'r gwaith hwn wedi cael ei lywio gan y Gweithgor Argyfwng ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol a gafodd ei sefydlu fel rhan o'r datganiad argyfwng. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys dau gynrychiolydd o bob parti gwleidyddol a gynrychiolir yn y Cyngor, gan gynnwys y ddau Aelod Arweiniol ar gyfer hinsawdd a newid ecolegol.
- 4.6. Os caiff ei gymeradwyo, bydd Bwrdd y Cynllun Corfforaethol yn monitro'r cynnydd ar gyflawni'r amcanion a amlinellir yn y Strategaeth. Bydd y Pwyllgorau Craffu ac Archwilio Mewnol yn craffu ar gydymffurfiaeth a chynnydd, yn ôl disgrisiwn y Prif Archwilydd Mewnol a'r Cadeiryddion a'r Is-gadeiryddion Craffu. Bydd papur yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor bob blwyddyn yn amlygu'r cynnydd a wnaed, gan gyfeirio yn ôl at Ddatganiad y Cyngor ar yr Argyfwng Hinsawdd. Bydd y strategaeth yn cael ei hadolygu a'i hadnewyddu bob 3 blynedd (2024 a 2027).

## **5 Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

- 5.1 Bydd y Strategaeth yn cyfrannu'n uniongyrchol at y Flaenoriaeth Amgylcheddol bresennol o fewn y Cynllun Corfforaethol 2017-2022 (yn benodol, targed i weld gostyngiad o 15% mewn carbon a phlannu 18,000 yn fwy o goed erbyn 2022).
- 5.2 Mae'n cynrychioli'r ddogfen gyflenwi sy'n nodi y dylai'r Cyngor gwrdd â'i nod i fod yn Garbon Sero Net ac yn Ecolegol Gadarnhaol erbyn 2030, mewn ymateb i'r Argyfwng Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol a gyhoeddwyd gan y Cyngor yn 2019.
- 5.3 Bydd ein Strategaeth yn amlinellu ein cyfraniad at bolisi Llywodraeth Cymru sy'n dymuno gweld y sector cyhoeddus yn garbon niwtral erbyn 2030, sicrhau bod Cymru yn cwrdd â'i tharged sydd wedi rhwymo mewn cyfraith i leihau allyriadau o leiaf 95% erbyn 2050 ac mae'n cefnogi dyletswydd statudol y Cyngor o dan Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i "geisio cynnal a chynyddu bioamrywiaeth".

## **6 Faint fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

- 6.1 Bydd angen buddsoddiad cyfalaf ar gyfer rhai o'r newidiadau a'r camau gweithredu a amlinellir yn y Strategaeth, bydd angen cyllid refeniw ar gyfer rhai eraill, a chyflawnir rhai heb unrhyw gostau ychwanegol o gwbl. Bydd llawer o'r newidiadau a'r camau gweithredu yn arbed arian i'r Cyngor yn y tymor hir. Er mwyn cyflawni'r strategaeth hon dros y 3 blynedd nesaf, credwn y bydd yn costio tua £9 miliwn o bunnoedd i gyflawni'r prosiectau sydd eu hangen er mwyn cyflawni popeth rydyn ni'n dymuno ei wneud. Mae'n debyg y bydd rhaid i ni fuddsoddi swm tebyg yn y blynyddoedd sy'n arwain at 2030 yn y dyfodol. Bydd pob ymyrraeth yn cael ei gwerthuso ar wahân – yn ariannol, drwy achosion busnes cyfalaf a thrwy gynlluniau a phrosesau cyllideb refeniw, ac ar gyfer lles ac aliniad cynaliadwyedd, drwy'r broses asesu effaith ar les sydd eisoes wedi'i sefydlu.
- 6.2 Ni fydd rhaid i'r cyngor ddarparu'r arian hwn i gyd ar ei ben ei hun. Rydym yn disgwyl y bydd grantiau gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth Prydain a chyrff cynorthwyol ar gael i'n helpu i ariannu'r gwaith sydd wedi'i gynllunio dros y 9 mlynedd.

- 6.3 Bydd gweithredu'r Cyngor drwy ddefnyddio dulliau carbon isel ac ecolegol gadarnhaol yn golygu y bydd rhaid i ni ddylunio a chyflwyno ein gwasanaethau mewn ffordd wahanol a bydd yn golygu newid polisi. Bydd alinio cynlluniau busnes gwasanaethau, rheoli perfformiad, mecanweithiau rheoleiddio a llunio penderfyniadau ar gyfer ein huchelgeisiau o ran Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol yn helpu i gyflawni'r gwaith.

## **7 Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?**

- 7.1 Mae diogelu a gwella lles cenedlaethau'r presennol a chenedlaethau'r dyfodol yn greiddiol i Gynllun Gweithredu a Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol Cyngor Sir Ddinbych, gan eu bod yn mynd i'r afael â newid hinsawdd a newid ecolegol. Gweler Atodiad A i ddarllen yr adroddiad llawn.

## **8 Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

- 8.1 Gwnaeth y Cyngor gynnal cyfnod ymgynghori ym mis Ionawr a Chwefror 2020 yn gofyn am adborth gan y cyhoedd ynghylch targedau arfaethedig y Cyngor i fod yn garbon sero net ac yn ecolegol gadarnhaol ac ynghylch unrhyw syniadau am sut gall y Cyngor gwrdd â'r targedau erbyn 2030. Mae'r adroddiad cryno ar yr ymatebion a gafwyd yn yr ymgynghoriad â'r cyhoedd ar gael yn gyhoeddus [yma](#).
- 8.2 Gan adeiladu ar syniadau'r cyhoedd, bu swyddogion yn gweithio drwy 2020 gyda Chynghorwyr a Swyddogion o'r Cyngor cyfan i ddatblygu'r Strategaeth, gan gynnwys cynnal gweithdai gyda'r holl feysydd gwasanaethau a swyddogion allweddol, rhoi cyflwyniadau i'r Cabinet a'r Uwch Dîm Rheoli a rhoi cyflwyniadau ym mhob un o Grwpiau Ardal yr Aelodau.
- 8.3 Ym mis Tachwedd a Rhagfyr 2020 gwnaeth y Cyngor gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y ddogfen ddrafft a defnyddiwyd yr adborth a gafwyd i lunio Strategaeth derfynol y Cyngor. Mae'r adroddiad cryno ar adborth yr ymgynghoriad ar gael yn gyhoeddus [yma](#).

## **9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

- 9.1 Mae'r goblygiadau ariannol wedi eu hamlinellu'n eglur yn Adran 6. Mae'r Gyllideb a gymeradwywyd ar gyfer 2021/22 yn cynnwys buddsoddiad o gyllideb sylfaen gwerth £0.389m. Mae'r buddsoddiad a amlinellir yn yr adroddiad hwn yn galw am gynydd

blynyddol yn y gyllideb a fydd yn mynd drwy broses flynyddol y gyllideb. Mae'n bwysig fod y ffynonellau ariannol allanol mor uchel â phosibl er mwyn lleihau'r effaith ar gyllid y Cyngor. Fel y nodwyd yn Adran 6, mae'n bwysig fod prosiectau unigol yn mynd drwy'r prosesau cymeradwyo arferol (Grŵp Buddsoddi Strategol ayb).

## **10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Mae'r risgiau amlwg wedi eu cynnwys yn Atodiad D.

## **11 Pŵer i wneud y penderfyniad**

11.1 Adran 2, Deddf Llywodraeth Leol 2000 – y pŵer i wneud unrhyw beth mae Cyngor Sir Ddinbych yn ei ystyried a fyddai'n debygol o hyrwyddo neu wella lles amgylcheddol eu hardal.

11.2 Adran 111, Deddf Llywodraeth Leol 1972 – y pŵer i wneud unrhyw beth y bwriedir iddo hwyluso, neu sy'n fanteisiol at gyflawni unrhyw un o swyddogaethau'r Cyngor.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag



# Denbighshire County Council's Climate and Ecological Change Strategy (2021-2030)

## Well-being Impact Assessment Report


This report summarises the likely impact of the proposal on the social, economic, environmental and cultural well-being of Denbighshire, Wales and the world.

Assessment Number:	802
Brief description:	The Strategy is all about the Council achieving Net Carbon Zero and Ecologically Positive by 2030. The document explains what we mean by those two goals, how the Council is currently performing on both, what we hope 2030 will look like for the Council having achieved our goals and the changes and actions we hope to deliver over the next 9 years, subject to the securing of the necessary funds. The strategy contains a set of existing and new policies across the range of Council services and operations that are supportive of low carbon, increased carbon sequestration and biodiversity improvement. The Strategy covers the years 2021/22 – 2029/30 and outline the projects/activities the Council intends to deliver, subject to the securing of the necessary funds, to work towards achieving our net carbon zero and ecologically positive Council goals. Note: The scope of the strategy is council owned emissions and council owned land-coverage isn't the whole of Denbighshire as a geographical county.
Date Completed:	01/02/2021 15:18:40 Version: 2
Completed by:	Helen Vaughan-Evans
Responsible Service:	Business Improvement & Modernisation
Localities affected by the proposal:	Whole County,
The Council will share its learning with City, Town and Community Council's within Denbighshire. Working with Local Government partners via the Local Government Decarbonisation Strategy Panel, and other opportunities, the Council will look to influence Welsh Government to simplify and make consistent the existing policy and legislative landscape, facilitate the increased impact by working at scale, support the increased engagement and behaviour change work with communities and provide resourcing which reflects the magnitude of the climate emergency we are all facing.

Latest news, advice and opportunities to get involved will be posted on the Council's [corporate website](#) and the Council Consultation portal. We will issue an e-newsletter every 6 months updating on the Council's work on this agenda and we aim to host a public engagement event once a year. We will share our learning with businesses across Denbighshire via our business communication channels managed by the Council's Economic and Business Development Team.

---

<sup>15</sup> The Public Service Board (PSB) is a partnership of public service agencies who work together to improve local services. A list of current Conwy and Denbighshire PSB partners can be found here: <https://conwyanddenbighshirelsb.org.uk/members/>

Members of the public can register for the climate and ecological change sub group of the Council's [Y Panel](#) and take part in online discussion forum on climate and ecological change themes.


Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## Ein Nod Di-Garbon Net


EIN CYNLLUN CYFLAWNI AR GYFER 2030

### EIN NOD AR GYFER 2030


Ein nod yw bod cyfanswm y carbon sy'n cael ei allyrru gan y Cyngor yn cyfateb i gyfanswm y carbon sy'n cael ei amsugno gan diroedd y mae'r Cyngor yn berchen arnynt ac yn eu gweithredu erbyn 31ain Mawrth 2030. Hefyd rydym yn anelu i leihau allyriadau ein cadwyn gyflenwi o 35%.



#### Rydym yn anelu i leihau allyriadau carbon o'r ffynonellau canlynol:



#### Fe fyddwn yn cynyddu cyfanswm y carbon a gaiff ei amsugno gan y tir yr ydym yn berchen arno ac yn ei reoli drwy...



#### Beth sydd angen i ni ei wneud i gyrraedd ein nod?

##### MAE'R CAMAU A GAIFF EU BLAENORIAETHU YN CYNWYS:

Canlyniadau ymgynghoriad

**DROS 100** o awgrymiadau ar broses a newidiadau polisi

- Adeiladau sy'n effeithlon o ran ynni
- Creu coetir newydd
- Goleuadau stryd LED
- Menter gyfathrebu a newid ymddygiad
- Cynlluniau yn ymwneud â lleihau gwastraff ac aildefnyddio
- Lleihau papur
- Cerbydau trydan a phwyntiau gwefru
- Cynlluniau ynni adnewyddadwy

#### Cymrwch ran


- Cofrestrwch am ddiweddariadau drwy [Y Panel](#)
- Ymunwch â'n fforwm sgwrsio [fforwm sgwrsio](#)
- Mae'r newyddion, cyngor a chyflleoedd diweddaraf ar ein gwefan [www.sirddinbych.gov.uk/newid-hinsawdd](http://www.sirddinbych.gov.uk/newid-hinsawdd)

## Our Net Carbon Zero Goal


OUR DELIVERY PLAN FOR 2030

### OUR 2030 GOAL


Our goal is for the total carbon emitted by the Council minus the total carbon absorbed from Council owned and operated land to equal zero by 31st March 2030. Plus we aim to reduce our supply chain emissions by 35%.



#### We aim to reduce carbon emissions from the following sources:



#### We will increase the carbon absorbed by the land we own and manage by...



#### What do we need to do to reach our goals?

Consultation outcomes

**MORE THAN 100** suggestions on process and policy changes

**PRIORITY ACTIONS INCLUDE:**

- Energy efficient buildings
- Create new woodland
- LED street lighting
- Communication and behaviour change initiative
- Waste reduction and reuse schemes
- Reduce paper
- Electric vehicles and charging points
- Renewable energy schemes

#### Get involved

- Sign up for updates at [Y Panel](#)
- Join our [chat forum](#)
- Get the latest news, advice and opportunities on our web site [www.denbighshire.gov.uk/climate-change](http://www.denbighshire.gov.uk/climate-change)

## Ein Nod Ecolegol Gadarnhaol


EIN CYNLLUN CYFLAWNI AR GYFER 2030

### EIN NOD AR GYFER 2030

Ein nod yw gwarchod, rheoli ac adfer ein tir yn ogystal â chreu ardaloedd newydd ar gyfer natur fel bod ecosystemau yn Sir Ddinbych yn amrywiol, wedi'u cysylltu, yn fawr o ran eu maint a'u graddfa, yn iach ac yn gallu addasu; felly, mae hyn nid yn unig yn cynnal bioamrywiaeth ond mae'n ei wella.



Rydym yn anelu i greu effaith gadarnhaol ar yr ecoleg o'n holl weithgareddau:




Diogelu a gwella bioamrywiaeth

Rheoli ac adfer tir

Creu ardaloedd newydd i fyd natur

Fe fyddwn yn cynyddu amrywiaeth rhywogaethau ar draws y tiroedd mae'r Cyngor yn berchen arnynt ac yn eu gweithredu

Trawsnewid y mathau o gynefinoedd sydd lleiaf cyfoethog o ran rhywogaethau...



...i'r mathau o gynefinoedd sydd fwyaf cyfoethog a ran rhywogaethau

Beth sydd angen i ni ei wneud i gyrraedd ein nod?

MAE'R CAMAU A GAIFF EU BLAENORIAETHU YN CYNWYS:



Gwneud y defnydd gorau o'r tiroedd y mae'r Cyngor yn berchen arnynt ar draws y Sir

Plannu coed a blodau gwyllt ar dir ysgolion ac o amgylch meysydd parcio

Ystyriaethau ecolegol wedi eu cynnwys mewn strategaethau a pholisïau yn ymwneud â thir

Cyfleoedd gwirfoddoli ar gyfer lleoliadau yn ymwneud â gwelliannau amgylcheddol

Gadael i laswellt dyfu yn ystod yr haf ar gyfer bywyd gwyllt amgylcheddol

Gosod goleuadau newydd yn yr awyr agored yn lle'r rhai presennol i ddiogelu ystumod, adar a phryfed

### Cymrwch ran

- Cofrestrwch am ddiweddariadau drwy [Y Panel](#)
- Ymunwch â'n fforwm sgwrsio [fforwm sgwrsio](#)
- Mae'r newyddion, cyngor a chyfleoedd diweddaraf ar ein gwefan [www.sirdinbych.gov.uk/newid-hinsawdd](http://www.sirdinbych.gov.uk/newid-hinsawdd)

## Our Ecologically Positive Goal

OUR DELIVERY PLAN FOR 2030

### OUR 2030 GOAL

Our goal is to protect, manage and restore our land as well as create new spaces for nature so that the ecosystems in Denbighshire are diverse, connected, big in scale and extent, in a healthy condition and adaptable and thus not only maintains biodiversity but enhances it.



We aim to deliver a positive impact for ecology from all of our activities:




Protect and improve biodiversity

Manage and restore land

Create new spaces for nature

We will increase species diversity across our Council owned and operated land


Convert the types of habitat that are least species-rich...



...into the types of habitats that are most species-rich

What do we need to do to reach our goals?

PRIORITY ACTIONS INCLUDE:



Make the best use of land the Council owns across the County

Plant trees and wild flowers within school grounds and around car parks

Ecological considerations built into land strategies and policies

Volunteer opportunities for environmental improvement placements

Leave grass to grow during the summer for wildlife

Replace outdoor lights to protect bats, birds and insects

### Get involved

- Sign up for updates at [Y Panel](#)
- Join our [chat forum](#)
- Get the latest news, advice and opportunities on our web site [www.denbighshire.gov.uk/climate-change](http://www.denbighshire.gov.uk/climate-change)



## Appendix D – Notable Risks

RISK	DESCRIPTION	MITIGATION ACTION
<p>Affordability of the Council being able to achieve its net carbon zero and ecologically positive goals.</p>	<p>There is a risk that the Council is unable to commit or attract sufficient resource (revenue and capital) to coordinate the programme, deliver net carbon zero and ecologically positive projects and deliver other projects in an enhanced eco way meaning funding bids are not submitted, opportunities not maximised, actions are not delivered and benefits are not realised.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Proactively seeking external finance with Welsh Government and Whitehall Departments using the strategy and action plan as our narrative.</li> <li>• Submitting strong and coordinated external funding bids, working collaboratively across the region as well as across internal DCC departments.</li> <li>• Early input into the Budget Board on calls on revenue and capital for the following financial year.</li> <li>• Ongoing dialogue with Section 151 officer in relation to longer financial plans via the Medium Term Financial Plan.</li> <li>• Carbon Literacy Training and ongoing support to officers to factor in eco enhancement from inception stage of projects, building in sufficient provision within external funding bids.</li> <li>• Implementing whole life costing into business case process to capture fully the long term costs and benefits of schemes.</li> <li>• Maximising on the delivery of the many projects which save both money and carbon annually for the Council.</li> <li>• Maximising on the delivery of projects which deliver upon COVID-19 recovery requirements and carbon saving for the Council.</li> </ul>

RISK	DESCRIPTION	MITIGATION ACTION
Changes in the carbon calculation methodology.	There is a risk that how carbon emissions and carbon absorption is calculated may alter between now and 2030 either through changes to the Welsh Government Greenhouse Gas Reporting Regime or other Reporting Guidance that will mean we will need to update our targets and trajectory to 2030.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Annual review paper to Full Council stating any major changes impacting the strategy.</li> <li>• Formally review and refresh the strategy document every 3 years up until 2030 (2023/24 and 2026/27).</li> </ul>
Being responsive to new opportunities to reduce carbon.	There is a risk that new opportunities may arise between now and 2030 that we need to respond to that will enable us to go further on reducing our carbon emissions, for example the introduction of a readily accessible new technology or a major development in ways to generate energy.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Horizon scan and keep abreast of developments within the climate and energy sectors.</li> <li>• Annual review paper to Full Council stating any major changes impacting the strategy.</li> <li>• Formally review and refresh the strategy document every 3 years up until 2030 (2023/24 and 2026/27).</li> </ul>
Meeting Public Expectation.	There is a risk of not meeting public expectation on this agenda and the democratic and reputational damage that could cause.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Continue to engage with the public proactively, constructively and sensitively on this agenda being very clear on the scope and scale of the Council's targets.</li> <li>• Through working with the Public Service Board (PSB) and community development partners, support the public in contributing personally to this agenda at a community level.</li> <li>• Celebrating the Council's existing and continued success in this agenda via press releases/social media and ensuring the public are aware of the range of work the Council are undertaking.</li> </ul>



<b>Adroddiad i'r</b>	<b>Cabinet</b>
<b>Dyddiad y cyfarfod</b>	<b>16 Chwefror 2020</b>
<b>Aelod Arweiniol/Swyddog</b>	<b>Y Cynghorydd Richard Mainon</b>
	<b>Alan Smith, Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio</b>
<b>Awdur yr adroddiad</b>	<b>Emma Jones – Gweinyddwr Perfformiad a Systemau Rhaglenni</b>
<b>Teitl</b>	<b>Adolygu'r Polisi Enwi a Rhifo Strydoedd</b>

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Newidiadau i Bolisi Enwi a Rhifo Strydoedd Sir Ddinbych.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Gofynnodd y Pwyllgor Craffu am adolygiad o bolisi presennol y Cyngor, yn sgil pryderon nad yw'n adlewyrchu Polisi Iaith Gymraeg y Cyngor yn iawn. Ystyriwyd y pryderon hyn ac mae newidiadau wedi'u gwneud i'r polisi.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

- 3.1. Bod yr holl strydoedd newydd yn cael eu henwi yn Gymraeg yn unig;
- 3.2. Bod y dewis i enwi strydoedd ar ôl unigolion yn cael ei dynnu o'r polisi;
- 3.3. Bod y Cabinet yn cymeradwyo'r newidiadau hyn.

## 4. Manylion yr Adroddiad

Cyflwynwyd Polisi Enwi a Rhifo Strydoedd cyfredol y Cyngor i Bwyllgor Craffu Perfformiad ym mis Mawrth 2019. Yr adborth a gafwyd gan y pwyllgor oedd bod angen adolygu'r polisi'n drwyadl, yn enwedig mewn perthynas â'r iaith Gymraeg. Argymhellwyd y dylid cyflwyno'r polisi i Bwyllgor Llywio'r Gymraeg y Cyngor.

Aeth y polisi ger bron Pwyllgor Llywio'r Gymraeg ym mis Gorffennaf 2019. Roedd eu hadborth yn debyg iawn i'r Pwyllgor Craffu: bod angen edrych ar y polisi'n fanwl ac y gall tynnu "Y/Yr" o enw stryd gael effaith niweidiol ar enw Cymraeg y stryd.

Ymgynghorwyd â Swyddog Iaith y Cyngor, Manon Celyn. Cytunodd i ddarllen y polisi yn Gymraeg a Saesneg ac amlygu unrhyw beth nad oedd yn cyd-fynd â'r Polisi Iaith neu Safonau Iaith y Cyngor. Atebodd gan ddweud, ar wahân i'r enghraifft a oedd eisoes wedi'i hamlygu, nad oedd yn ymddangos bod unrhyw beth arall yn codi o ran y Gymraeg.

I gasglu mwy o farn ar gyfer yr adolygiad, gofynnwyd i Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ystyried polisi'r Cyngor. Atebodd Eleri James i ddweud bod y Comisiwn yn canolbwyntio yn bennaf ar enwau aneddiadau a'i fod yn gyfrifol am gynghori ar enwau safonol trefi a phentrefi yng Nghymru.

Fodd bynnag, roeddwn i wedi gofyn ynglŷn ag ailenwi strydoedd Saesneg yn strydoedd gydag enwau Cymraeg/Saesneg. Bu iddi nodi rhai o'r egwyddorion y maent hwy yn eu dilyn a dywedodd fod y seithfed egwyddor yn cynghori yn erbyn cyfieithu enwau lleoedd yn llythrennol neu'n fympwyol oni bai fod tystiolaeth gref bod y ffurf wedi'i mabwysiadu i raddau helaeth gan y gymuned ac wedi ennill ei phlwyf. Dywedodd hefyd fod risgiau ynghlwm â chyfieithu'n union, o ran colli neu gamddechongli ystyr gwreiddiol ac arwyddocâd hanesyddol yr enw. Ni fyddai chwaith yn annog cyfieithu enwau strydoedd sydd yn Gymraeg yn unig ar hyn o bryd. Roedd wedi cynnwys copi o lythyr yr oedd y Comisiynydd wedi'i anfon at Gyngor Dinas Caerdydd wrth iddynt gyhoeddi polisi enwi a rhifo strydoedd newydd. Bu i'r Comisiynydd eu llongyfarch ar eu bwriad i roi enwau Cymraeg yn unig ar strydoedd mewn datblygiadau newydd ac roedd yn eu hannog yn eu gwaith o geisio cryfhau cysylltiadau hanesyddol â diwylliannol â'r Gymraeg trwy wneud hyn. Mae'r rhain yn ymddangos yn egwyddorion pwysig ac argymhellir eu bod yn cael eu cynnwys ym mholisi'r Cyngor.

Roedd y Pwyllgor Craffu hefyd wedi sôn am y gallu i enwi strydoedd ar ôl unigolion pan fo achos cryf dros wneud hynny. Cyfeiriwyd yn benodol at y datblygiad diweddar yn y Rhyl. Mae'r enghraifft hon unwaith eto yn codi pryderon ynghylch yr egwyddor gyffredinol o enwi strydoedd ar ôl pobl, yn enwedig pan fo angen newid enwau strydoedd yn sgil hanes pobl yn dod i'r amlwg. Er nad yw'r enghraifft uchod, yn amlwg, o natur felly, byddai'n syniad da osgoi'r posibilrwydd yn y dyfodol. Dyma ail argymhelliad yr adolygiad: nad ydym yn enwi caniatáu strydoedd ar ôl pobl mwyach.

Ar ôl cynnal adolygiad llawn o'r polisi, argymhellir y newidiadau hyn.

1. Bod yr holl strydoedd newydd yn cael eu henwi yn Gymraeg yn unig;
2. Bod y dewis i enwi strydoedd ar ôl unigolion yn cael ei dynnu o'r polisi;

## **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1. Amherthnasol.

## **6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1. Dim costau ychwanegol.

## **7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?**

7.1. Mae'r adolygiad o'r polisi wedi amlygu rhai newidiadau sydd angen eu gwneud.

Mae asesu'r effaith ar les wedi dangos y bydd effaith gadarnhaol ar y Gymraeg a diwylliant Cymru gan y bydd angen i enwau strydoedd fod yn berthnasol i'r ardal ac, os newidir y polisi, yn Gymraeg yn unig. Nid oes angen unrhyw asesiad o effaith arall.

## **8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?**

8.1. Pwyllgor Craffu, Pwyllgor Llywio'r Gymraeg, Swyddog Iaith y Cyngor a Chomisiynydd y Gymraeg.

## **9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1. Amherthnasol.

## **10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1. Os nad yw Polisi Enwi a Rhifo Strydoedd y Cyngor yn adlewyrchu ein Polisi Iaith yn iawn, neu os nad yw ei ddarpariaethau'n adlewyrchu pryderon cymunedol, yna fe all ddwyn enw drwg ar y Cyngor.

## **11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

11.1. Deddf Llywodraeth Leol 1972.

# Polisi Enwi a Rhifo Strydoedd Ionawr 2021

## Fersiwn y Ddogfen

Fersiwn	Dyddiad Cyhoeddi:	Awdur	Sylwadau
1.0	27 Mai 2014	David Morgan a Karen Hawkes	
2.0	6 Mehefin 2018	Emma Jones	Ychwanegwyd Cae fel rhagddodiad Cymraeg cymeradwy ar gyfer enw stryd
3.0	Ionawr 2021	Emma Jones	Adolygiad mewn perthynas â strydoedd ag enwau Cymraeg yn unig ac nid strydoedd sydd wedi'u henwi ar ôl unigolion

## Cynnwys

Adran A: Cyflwyniad.....	3
1 - Beth yw enwi strydoedd a rhifo?	
2 - Pam fod enwi strydoedd a rhifo yn bwysig?	
3 - Pwy sy'n gyfrifol am enwi strydoedd a rhifo?	
4 - Datganiad Polisi	
5 - Ystyriaethau'r iaith Gymraeg	
6 - Pryd i wneud cais – canllawiau ar gyfer ymgeiswyr	
7 - Sut i wneud cais – canllawiau ar gyfer ymgeiswyr	
Adran B: Enwi Strydoedd .....	7
Egwyddor Gyffredinol	
Enwau strydoedd newydd	
Defnyddio enwau marchnata answyddogol	
Ailenwi stryd / newid enw stryd	
Enwi strydoedd dienw sy'n bodoli eisoes	
Arddangos enwau strydoedd (placiau enwau strydoedd)	
Adran C: Enwi a Rhifo Eiddo.....	13
Dilyniant rhifo eiddo	
Canolfannau siopa, parciau manwerthu ac ystadau diwydiannol	
Gweithredu cyfeiriadau newydd	
Ychwanegu enw neu ailenwi eiddo sydd eisoes wedi'i rifo	
Trawsnewid adeilad presennol	
Ailrifo eiddo presennol	
Arddangos enwau a rhifau eiddo	
Adran D: Cyfeiriadau Post .....	17
Neilltuo cyfeiriadau post	
Codau post	
Enw'r sir	
Hysbysu partneriaid mewnol ac allanol am newid i wybodaeth cyfeiriadau	
Rhestr Cyfeiriadau Corfforaethol Cyngor Sir Ddinbych	
Adran E: Gosod placiau enwau stryd .....	21
Adran F: Adolygu polisïau.....	23
Adran G: Cysylltiadau Defnyddiol .....	23

## Adran A: Cyflwyniad

Diben y ddogfen hon yw nodi'r polisi ar gyfer dyrannu, rheoli a defnyddio'r holl gyfeiriadau o fewn Sir Ddinbych gan gynnwys neilltuo enwau strydoedd, newid i enwau eiddo ac ychwanegu enwau newydd.

### 1. 1. Beth yw enwi strydoedd a rhifo?

1.1. Mae enwi strydoedd a rhifo yn caniatáu neilltuo hunaniaeth unigryw i stryd, ac wedyn unrhyw eiddo cysylltiedig y gellir cael mynediad iddo oddi ar y stryd.

### 2. Pam fod enwi strydoedd a rhifo yn bwysig?

2.1. Mae cyfeiriad eiddo yn dod yn fater pwysig iawn. Mae pob sefydliad sector cyhoeddus a phreifat, y gwasanaethau brys a'r cyhoedd angen modd effeithlon a chywir o leoli a chyfeirnod eiddo.

2.2. Mae cynnal safon gynhwysfawr, gyson, ac uchel ar gyfer enwi strydoedd a rhifo neu enwi eiddo yn hanfodol gan ei fod yn caniatáu:

- Y Gwasanaethau Brys i ddod o hyd i eiddo'n gyflym – gall oedi gostio bywydau ac arian
- Dosbarthu post, gwasanaethau a chynnyrch yn ddibynadwy ac yn effeithlon
- Cadw cofnodion o ddarparwyr gwasanaeth mewn modd effeithiol
- Cwmnïau i dderbyn cyfeiriad at ddibenion swyddogol wrth ddarparu gwasanaethau teleathrebu, yswiriant, bancio, gwirio statws credyd ac yn y blaen.
- Ymwelwyr i ganfod eu cyrchfan

### 3. Pwy sy'n gyfrifol am enwi strydoedd a rhifo?

3.1. Mae gan Gyngor Sir Ddinbych gyfrifoldebau a grymoedd statudol, yng nghydestun deddfwriaeth a fabwysiadwyd, ar gyfer enwi strydoedd, newid enwau strydoedd, a nodi enwau strydoedd. Mae gan y Cyngor hefyd bwerau dewisol i ddarparu rhif neu enw i eiddo.

3.2. Dylid nodi nad oes gan y Post Brenhinol unrhyw gyfrifoldebau na phwerau statudol i enwi stryd nac enwi, rhifo, ailenwi nac ail-rifo eiddo. Y Post Brenhinol sydd â chyfrifoldeb llwyr dros neilltuo cod post wedi i Gyngor Sir Ddinbych eu hysbysu am gyfeiriad newydd neu ddiwygiedig.

#### 4. Datganiad Polisi

4.1. Mae'r polisi hwn yn darparu fframwaith i Gyngor Sir Ddinbych weithredu ei swyddogaeth enwi strydoedd a rhifo yn effeithiol ac effeithlon er budd trigolion, busnesau ac ymwelwyr. Bydd hefyd yn ganllaw i ddatblygwyr pan fyddant yn ystyried enwau newydd i strydoedd.

4.2. Mae'r Polisi yn diffinio:

- Fframwaith cyfreithiol ar gyfer gweithredu gwasanaeth enwi strydoedd a rhifo.
- Protocolau er mwyn penderfynu ar enwau strydoedd a rhifau swyddogol.

4.3. Gellir enwi a rhifo o dan y Ddeddfwriaeth hon: Deddf Iechyd Cyhoeddus 1925 (ar gyfer enwi strydoedd) a Deddf Cymalau Gwella Trefi 1847 (ar gyfer rhifo eiddo).

4.4. Caiff swyddogaeth enwi strydoedd a rhifo ei darparu o dan Gynllun Dirprwyo'r Cyngor. Y swyddog dirprwyedig yw'r Pennaeth Gwasanaeth ar gyfer Gwella Busnes a Moderneiddio. O hyn allan 'y swyddog â phwerau dirprwyedig'.

#### 5. Ystyriaethau'r iaith Gymraeg

5.1. Mae Cyngor Sir Ddinbych yn atebol am y darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Iaith Gymraeg 1993, Mesur Iaith Gymraeg (Cymru) 2011, strategaeth iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru, iaith fyw: iaith Byw – Strategaeth iaith Gymraeg 2012 i 2017 a Deddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016.

5.2. Comisiynydd yr Iaith Gymraeg a Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ddatblygu pob agwedd o'r iaith Gymraeg.

5.3. Mae cynllun iaith Gymraeg yr Awdurdod yn sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal.

5.4. Y polisi mewn perthynas ag enwau strydoedd fydd mabwysiadu enw Cymraeg sy'n cyd-fynd â threftadaeth leol a hanes yr ardal.

5.5. Nid fydd enwau strydoedd sydd ar hyn o bryd mewn un iaith yn unig yn cael eu cyfieithu oni bai bod cais wedi'i wneud i ail-enwi'r stryd yn unol â'r broses ail-enwi yn Adran B, paragraff 4 (isod).

5.6. Lle bod ymholiad yn codi ynghylch enw lle, bydd y cyngor yn ymgynghori â gwasanaeth ymgynghorol ynglŷn ag enwau lleoedd Comisiynydd yr Iaith Gymraeg.



5.7. Cydnabyddir mai un fersiwn o gyfeiriad yn unig y gall sawl cronfa ddata ei dal. Gyda chyfeiriadau dwyieithog, polisi y Post Brenhinol yw cyhoeddi'r fersiwn Saesneg o'r cyfeiriad yn unig, a chadw'r fersiwn Gymraeg yn y cefndir neu fel enw arall. Nid oes gan yr Awdurdod Lleol unrhyw awdurdodaeth dros sut mae cwmnïau preifat yn cyhoeddi data am gyfeiriadau.

## 6. Pryd i wneud cais – canllawiau ar gyfer ymgeiswyr

6.1. Dylai ceisiadau am wasanaethau Enwi Strydoedd a Rhifo gael eu gwneud gan:

- Perchnogion / datblygwyr eiddo neu dir sydd yn dymuno ailenwi eiddo sydd ag enw eisoes
- Perchnogion / datblygwyr eiddo neu dir sydd yn dymuno ailenwi eiddo sydd ag enw eisoes
- Perchnogion / datblygwyr eiddo neu dir sy'n adeiladu eiddo newydd gan gynnwys eiddo preswyl, eiddo masnachol, unedau diwydiannol ac ati.
- Perchnogion / datblygwyr eiddo neu dir sy'n dymuno newid cynlluniau ar gyfer datblygiadau newydd sydd eisoes wedi mynd drwy'r broses enwi a rhifo ffurfiol.
- Perchnogion / datblygwyr eiddo neu dir sy'n trawsnewid eiddo presennol fydd yn golygu creu eiddo preswyl neu eiddo busnes newydd. Bydd hyn yn cynnwys adeiladau presennol sydd wedi eu hisrannu'n fflatiau neu'n swyddfeydd, ysguboriau a droswyd yn eiddo preswyl, a rhannu unedau masnachol
- Preswylwyr sy'n dymuno ailenwi stryd
- Gwasanaethau Brys sy'n dymuno ail-enwi stryd
- Unigolion a busnesau sy'n gofyn am gadarnhad i gyfeiriad

6.2. Gan fod y broses o enwi strydoedd a rhifo yn cynnwys ymgynghori a pharatoi amserlenni a gymeradwywyd, dylai ymgeiswyr ymgynghori gyda'r cyngor cyn gynted â phosib er mwyn osgoi oedi. Dylid cyflwyno ceisiadau cyn gynted ag sy'n bosib ar ôl derbyn cymeradwyaeth caniatâd cynllunio ac / neu reoliadau adeiladu ffurfiol ar gyfer y cais a chyn i waith ar y safle ddechrau.

## 7. Sut i wneud cais – canllawiau ar gyfer ymgeiswyr

7.1. Gellir gwneud cais Enwi Strydoedd a Rhifo ar-lein - <https://www.denbighshire.gov.uk/en/resident/planning-and-building-regulations/street-naming-and-numbering/street-naming-and-numbering-application-form.aspx>;

7.2. Fel arall gallwch gael ffurflen gais drwy:

- Ffôn: 01824 706000
- E-bost: [llprequests@denbighshire.gov.uk](mailto:llprequests@denbighshire.gov.uk)

## Adran B: Enwi Strydoedd

### 1. Egwyddor gyffredinol

- 1.1. Caiff strydoedd newydd eu henwi yn Sir Ddinbych yn unol â darpariaeth Deddf Iechyd Cyhoeddus 1925.
- 1.2. Rhaid i ddatblygwyr gynnal unrhyw gyswllt hanesyddol â'r tir neu'r ardal wrth awgrymu enw.
- 1.3. Mae'n bwysig fod datblygwyr yn cysylltu â'r Cyngor am enwi strydoedd a rhifo cyn i waith adeiladu gael ei gychwyn. Gall methu gwneud hynny arwain at oedi gan fod yn rhaid rhoi cymeradwyaeth er mwyn enwi strydoedd a rhifo cyn i unrhyw arwyddion gael eu gosod neu cyn y darperir cyfeiriadau post.
- 1.4. Bydd holl gostau cyflenwi a chodi placiau enwau strydoedd newydd yn cael eu talu gan y datblygwr. Dylid anfon cynllun manwl yn dangos y stryd(oedd) a rhifau plotiau bwriedig yn glir at y Swyddog Enwi Strydoedd a Rhifo. Mae'n bosib y bydd ymgynghoriad yn cael ei gynnal gyda'r Gwasanaeth Amgylchedd a Phrifyrdd o ran addasrwydd lleoliadau bwriedig y placiau enwau strydoedd. Gall manyleb arwyddion a manylion cyswllt cyflenwr gael eu darparu i'r datblygwr. Ar gyfer unrhyw stryd a fabwysiadwyd, bydd cynnal y plac(iau) enw yn dod yn gyfrifoldeb yr Awdurdod Lleol.
- 1.5. Ni ddylai enwau strydoedd newydd ddyblygu unrhyw enw tebyg sydd eisoes yn cael ei ddefnyddio yn y dref bost. Ni fydd amrywio'r gair cyntaf, h.y. 'stryd', 'ffordd', 'rhodfa' ac ati yn cael eu derbyn fel rhesymau digonol i ddyblygu enw.
- 1.6. Ni fydd unrhyw gynnig i enwi stryd ar ôl unigolion penodol (byw neu farw) yn cael eu cymeradwyo.
- 1.7. Ni chaniateir unrhyw enwau strydoedd sy'n hyrwyddo cwmni, gwasanaeth na chynnyrch gweithredol gan y gellid ystyried hyn yn hysbysebu.
- 1.8. Mae'r awdurdod yn cadw'r hawl i wrthwynebu unrhyw enw a awgrymwyd y mae'n ystyried yn amhriodol.

### 2. Enwau Strydoedd Newydd:

Dylid ymdrechu i ddechrau/gorffen gydag un o'r rhagddodiaid/ôl-ddodiaid canlynol	
Stryd/Street	ar gyfer unrhyw ffordd
Ffordd/Road	ar gyfer prif ffyrdd
Rhodfa/Avenue	ar gyfer ffyrdd preswyl
Dreif/Drive	ar gyfer ffyrdd preswyl
Llwyn/Grove	ar gyfer ffyrdd preswyl
Lôn /Lane	ar gyfer ffyrdd preswyl
Gerddi/Gardens	ar gyfer ffyrdd preswyl (ar yr amod nag oes dryswch gydag unrhyw fan agored lleol)
Maes/Place	
Trem/View	
Llys/Court	ar gyfer ffordd bengaead
Clôs/Close	ar gyfer ffordd bengaead
Cilgant/Crescent	ar gyfer ffordd siâp cilgant
Sgwâr/Square	ar gyfer sgwâr yn unig
Bryn/Hill	ar gyfer ffordd ar ochr bryn yn unig
Cylchfan/Circus	ar gyfer cylchfan fawr
Teras neu Res/ Terrace	ar gyfer teras o dai (cyn belled nad yw'n enw ategol)
Dyffryn/Vale	ar gyfer ffyrdd preswyl yn unig dan amgylchiadau eithriadol
Dôl/Meadow	ar gyfer ffyrdd preswyl yn unig dan amgylchiadau eithriadol
Gallt/Rise	ar gyfer ffyrdd preswyl yn unig dan amgylchiadau eithriadol

Ni fydd y canlynol yn dderbyniol fel rhagddodiaid:	
Pen/End	Gellir wrth gwrs ymgorffori pob un o'r geiriau hyn mewn enw stryd ar yr amod eu bod yn dechrau gyda rhagddodiad priodol e.e. Ffordd Pen y Filltir)
Croes/Cross	
Ochr/Side	
Glanfa/Wharf	
Parc/Park	

2.1. Dylai pob enw ffordd newydd i gerddwyr gychwyn gydag un o'r rhagddodiaid a ganlyn:

- Rhodfa/Walk
- Llwybr/Path
- Ffordd neu Lôn/Way

2.2. Byddwn yn osgoi enwau sy'n anaddas yn esthetig fel Tŷ'r Omen, Lôn y Twll, neu enwau y gellir eu camddehongli'n fwriadol fel Hoare Road, Typple Avenue, Swag House ac ati.

2.3. Bydd defnyddio Gogledd, Dwyrain, De neu Orllewin (fel Gogledd Ffordd Alfred a De Ffordd Alfred) ond yn dderbyniol lle mae'r ffordd yn un barhaus ac yn parhau heibio i gyffordd fawr. Nid yw'n dderbyniol pan fydd y ffordd mewn dwy ran unigol heb fynediad i gerbydau rhwng y ddwy. Mewn achos o'r fath dylid ailenwi un hanner yn gyfan gwbl.

2.4. Ni fyddwn yn caniatáu dau enw sy'n debyg o ran sain o fewn ardal bost e.e. Ffordd Alfred a Clôs Alfred neu Ffordd Churchill a Ffordd Birch Hill neu Ffordd Talargoch a Rhodfa Talargoch.

2.5. Mae cyfrifoldeb ar Gyngor Sir Ddinbych fel awdurdod enwi strydoedd a rhifo i roi cymeradwyaeth derfynol i enw stryd.

2.6. Os oes anghytundeb heb ei ddatrys, bydd penderfyniad terfynol yn cael ei wneud gan y swyddog â phwerau dirprwyedig i gymeradwyo enwau strydoedd yng nghyfansoddiad y cyngor. Os yw'r unigolyn sy'n cynnig enwi'r stryd yn parhau i anghytuno gyda phenderfyniad y cyngor, gallant apelio yn erbyn y gwrthwynebiad i Lys Ynadon, o fewn un diwrnod ar hugain.

2.7. Bydd swyddfa Comisiynydd yr Iaith Gymraeg yn gyfrifol am benderfynu ar enwau lleoedd o ran cyfieithiadau Cymraeg a gymeradwywyd.

### 3. Defnyddio enwau marchnata answyddogol

3.1. Rhaid i ddatblygwyr nodi'n glir mewn unrhyw lenyddiaeth marchnata a ddsberthir i ddarparwyr bod enwau marchnata'n amodol ar gymeradwyaeth ffurfiol ac y gallent newid o ganlyniad.

### 4. Ailenwi Stryd / newid enw stryd

4.1. Mae ailenwi stryd ac ailrifo adeiladau yn broses sy'n cymryd llawer o amser a gall achosi costau neu aflonyddwch i breswylwyr a pherchnogion unigol a byddwn yn ei osgoi lle bynnag bo'n bosib. Byddwn fel arfer ond yn ystyried ailenwi stryd os yw problemau cyson yn codi i'r Gwasanaethau Brys a byddwn ond yn ystyried ailrifo eiddo pan fod datblygiadau mewnlenwi ac ati mor fawr, fel na ellir neilltuo rhifau ar gyfer yr eiddo newydd. Yna gallai cynllun ailrifo gael ei gynnal ar y stryd bresennol.

4.2. Gall y canlynol ail-enwi stryd, gan gynnwys newid enw stryd o enw uniaith i enw dwyieithog:

- Trethdalwr unigol sy'n preswyllo yn y stryd a effeithir ar yr amod eu bod yn cyflwyno llythyr yn cynnig newid gyda llofnod 5 neu 25% (pa un bynnag yw'r lleiaf) o'r trethdalwyr sy'n preswyllo ar y stryd.
- Y Gwasanaethau Brys.

4.3. Y cyngor fydd yn talu'r gost o ailenwi ac ailosod arwyddion ar strydoedd ar gais y Gwasanaethau Brys.

4.4. Os yw stryd yn cael ei hailenwi ar gais trethdalwr (neu grŵp o drethdalwyr) ar y stryd, bydd yn rhaid i'r preswylwyr dalu'r gost o ailosod arwyddion y stryd. Bydd Cyngor Sir Ddinbych wedyn yn talu costau cynnal a chadw parhaus yr arwyddion.

4.5. Cyn ailenwi unrhyw stryd / addasu enw, bydd y Swyddog Enwi Strydoedd a Rhifo yn cynnal ymgynghoriad llawn gyda'r trethdalwyr ar y stryd a effeithir a'r rhai ar y rhestr ymgynghori a amlinellir ym mharagraff 4.1. Adran D. Bydd llythyr a ffurflen yn cael eu hanfon at bob trethdalwr ar y stryd a'r rhai ar y rhestr ymgynghori yn amlinellu'r rhesymau o blaid a goblygiadau'r newid arfaethedig. Bydd y cyfnod ymgynghori yn para 28 diwrnod. Rhaid cael mwyafrif o ran cefnogaeth gan yr ymgynghoreion er mwyn i gais fynd yn ei flaen.

4.6. Bydd adroddiad yn manylu ar ganlyniadau'r ymgynghoriad yn cael ei gyflwyno i'r swyddog â phwerau dirprwyedig a fydd yn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r newid. Gallai rhesymau dros beidio â bwrw ymlaen â'r newid arfaethedig gynnwys y canlynol, ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt:

- Diffyg cefnogaeth gan drethdalwyr
- Costau afresymol
- Gwrthwynebiad dilys a difrifol gan fudd-ddeiliad na ellir ei ddatrys yn hawdd

Bydd yr adroddiad yn cynnwys cost gosod unrhyw blaciau enw strydoedd newydd ac a fyddai'r newid arfaethedig yn golygu newid i god post y Post Brenhinol.

4.7. Ow yw'r swyddog â phwerau dirprwyedig yn penderfynu bwrw ymlaen â newid enw, bydd yr Awdurdod Lleol yn cyhoeddi rhybudd o fwriad i greu gorchymyn ailenwi stryd bresennol. Bydd yr hysbysiad hwn yn cael ei arddangos ar ben bob stryd neu mewn man amlwg ar y stryd neu ran o'r stryd yr effeithir arni dan Adran 18 Deddf Lechyd Cyhoeddus 1925 a rhaid iddynt aros yn eu lle am un mis cyn y gellir gwneud gorchymyn i newid yr enw. Gall unrhyw unigolion sydd wedi'u tramgwyddo gan orchymyn arfaethedig yr Awdurdod Lleol, apelio i'r Llys Ynadon o fewn 21 diwrnod o osod yr hysbysiad. Os gwneir apêl i'r Llys Ynadon, rhaid i'r Awdurdod Lleol aros nes bod apêl wedi'i chlywed cyn cymeradwyo unrhyw enw stryd.

## 5. Enwi strydoedd dienw sy'n bodoli eisoes

5.1. Bydd strydoedd dienw ond yn cael eu hailenwi pan fydd trethdalwr ar y stryd yn gwneud cais i enwi eu stryd (ac awgrymu enw) gan fod y diffyg enw yn achosi oedi cyn i'r Gwasanaethau Brys ddod o hyd i'r stryd. Bydd y weithdrefn yn unol ag Adran 2.3 ar gyfer ailenwi stryd ac mae'n rhaid i'r enw newydd gadw at yr egwyddorion a amlinellir yn y polisi hwn.

## 6. Arddangos enwau strydoedd (placiau enwau strydoedd)

6.1. Cyfrifoldeb yr Awdurdod Lleol yw arddangos placiau enwau strydoedd ar ffyrdd sy'n cael eu cynnal gan yr Awdurdod Lleol (priffyrdd a fabwysiadwyd).

6.2. Cyfrifoldeb y perchennog, datblygwr neu breswylwyr ffyrdd preifat yw gosod a chynnal planciau enwau strydoedd. Os tynnir sylw Awdurdod Lleol at y ffaith nad oes plac enw stryd wedi'i arddangos ar ffordd breifat bydd yr Awdurdod yn rhoi 21 diwrnod o rybudd i berchnogion / preswylwyr y ffordd i arddangos yr enw cywir.

6.3. Lle na chydymffurfir â'r Hysbysiad, bydd yr Awdurdod hwn yn rhoi 14 diwrnod o rybudd y bydd yn achosi i'r placiau enwau i gael eu harddangos ar y ffordd breifat, yn ddiofyn, ac adennill y costau oddi wrth berchnogion neu breswylwyr y ffordd, yn unol ag adran 18 (2), Deddf 1925. Gallai'r Awdurdod hwn hefyd ddechrau achos i adennill dirwy.



## Adran C: Enwi a Rhifo Eiddo

### 1. Dilyniant rhifo eiddo

- 1.1. Caiff strydoedd newydd eu rhifo yn Sir Ddinbych yn unol â darpariaethau Deddf Cymalau Gwella Trefi 1847.
- 1.2. Bydd strydoedd newydd yn cael eu rhifo fel bod eilrifau ar ochr dde'r stryd, wrth deithio allan o ganol y dref, o ddechrau i ddiwedd y stryd a bod odrifau yn cael eu neilltuo ar y chwith.
- 1.3. Bydd lonydd pengaead a datblygiadau ar raddfa fach yn cael eu rhifo'n olynol mewn cyfeiriad clocwedd. Bydd datblygiadau lôn bengaead hirach unwaith eto yn cael eu rhifo gydag eilrifau'n cael eu neilltuo i eiddo ar y ochr dde ac odrifau'n cael eu neilltuo i eiddo ar y chwith.
- 1.4. Bydd rhifau (gan gynnwys rhif 13) yn parhau i fod yn olynol ac ni fydd unrhyw rif yn cael ei eithrio o ganlyniad i ofergoel neu ddewis personol. Bydd ceisiadau i hepgor unrhyw rif o gyfres o rifau, am ba bynnag reswm, yn cael eu gwrthod.
- 1.5. Bydd eiddo (gan gynnwys rhai ar safleoedd cornel) yn cael eu rhifo yn ôl y stryd y lleolir y brif fynedfa arni.
- 1.6. Lle nad yw dilyniant rhifo strydoedd yn bodoli, yn bennaf mewn ardaloedd gwledig, bydd yn briodol i neilltuo enwau eiddo y cytunwyd arnynt. Argymhellir y dylid cynnal cysylltiad hanesyddol neu ddiwylliannol neu'r ardal leol yn enw'r eiddo.
- 1.7. Bydd datblygiadau mewnlenni (eiddo newydd a adeiladwyd rhwng eiddo sydd eisoes yn bodoli neu ar dir eiddo presennol) ar stryd a rifwyd yn ael yr un rhif tŷ a'r eiddo cyn y mewnlenni, a'i ddilyn gan ôl-ddodiad 'A', 'B'. Er enghraifft, 10A, 10B ac ati.
- 1.8. Ni chaiff enw busnes gymryd lle rhif neu enw adeilad.
- 1.9. Bydd atodiadau i adeiladau e.e. fflatiau nain neu lety ategol, yn derbyn y rhagddodiad "Anecs". Bydd gweddill y cyfeiriad yr un fath â'r prif eiddo e.e. Anecs, 1 Stryd Fawr.
- 1.10. Ar gyfer unrhyw annedd sydd â mynediad mewnol iddo trwy gysail masnachol, bydd y llety yn derbyn rhagddodiad i gyd-fynd â'r math o lety e.e. fflat. Bydd gweddill y cyfeiriad yr un fath â'r prif eiddo, e.e. lle mae fflat

uwchben tafarn ac mai dim ond mynediad mewnol sydd iddo, ei gyfeiriad fydd Fflat, Enw'r Dafarn, Rhif yr Eiddo ac Enw'r Stryd.

1.11. Gellir rhoi enw i flociau o fflatiau a fflatiau aml-lawr, ond bydd pob fflat neu fflat aml-lawr unigol yn cael eu rhifo'n olynol.

1.12. Yn ddelfrydol dylai enw pob bloc o ddatblygiadau newydd arfaethedig ddechrau gydag un o'r rhagddodiaid canlynol (neu ôl-ddodiaid yn achos cyfieithiadau Saesneg):

- Llys
- Tŷ
- Man
- Tŵr
- Llety
- Fflatiau
- Plastai
- Ucheldir

1.13. Bydd y gair "fflat" yn berthnasol i'r eiddo hynny lle mae llety ar un llawr yr adeilad yn unig. Os yw llety preswyl yn ymdrin â dau neu fwy o lorïau a bod ganddo ei risiau mewnol ei hun, bydd y term "fflat aml-lawr" yn cael ei ddefnyddio.

1.14. Rhoddir rhif yn hytrach na llythyren neu ddisgrifiad i bob fflat e.e. Fflat 1 yn hytrach na Fflat A neu Fflat Llawr Cyntaf.

## 2. Canolfannau siopa, parciau manwerthu ac ystadau diwydiannol

2.1. Mae enwau ar gyfer Canolfannau Siopa, Parciau Manwerthu ac Ystadau Diwydiannol ac ati yn dilyn yr un egwyddorion â'r rhai a amlinellwyd ar gyfer enwau strydoedd neu adeiladau.

## 3. Gweithredu cyfeiriadau newydd

3.1. Pan fod datblygiad newydd wedi ei gymeradwyo, caiff cyfeiriadau eu creu gan y Cyngor fel endidau 'dros dro'. Mae manylion y datblygiad arfaethedig yn cael eu rhannu gyda'r Post Brenhinol sydd wedyn yn 'Dal a chofnodi' y cyfeiriadau ar eu cronfa ddata cyfeiriadau "Heb eu Creu Eto". Er mwyn osgoi unrhyw broblemau lle caiff post ei anfon at eiddo nad ydynt yn bodoli, nid yw'r cyfeiriadau'n cael eu gweithredu hyd nes bod preswylwyr yn yr eiddo neu eu bod wedi'u cwblhau ac felly'n gallu derbyn gwasanaethau post.

4. Ychwanegu enw neu ailenwi eiddo sydd eisoes wedi'i rifo.

- 4.1. Lle bod rhif ar eiddo, rhaid iddo gael ei ddefnyddio a'i arddangos. Pan fydd enw'n cael ei roi i eiddo ynghyd â'i rif swyddogol, rhaid cynnwys y rhif bob amser. Ni ellir ystyried yr enw fel dewis arall yn lle'r rhif.
- 4.2. Gall perchennog (nid tenant) eiddo ofyn i ychwanegu, diwygio neu ddileu enw ar gyfer eu heiddo. Pan fydd eiddo wedi'i rifo, bydd unrhyw enw yn ychwanegol at y rhif.
- 4.3. Os ceir cais i ychwanegu enw i eiddo sydd eisoes wedi cael ei rifo, bydd yr awdurdod yn rhoi'r arweiniad canlynol:
- Ni ddylai fod unrhyw wrthdaro ag enwau ar eiddo neu stryd bresennol yn yr ardal bost.
  - Ni ddylid enwi eiddo ar ôl unigolion penodol (byw neu farw).
  - Ni ddylai'r enw bwriedig gynnwys iaith sarhaus neu amhriodol.
- 4.4. Pan fydd yr awdurdod lleol wedi rhifo tŷ a bod y preswlydd wedi rhoi enw arno hefyd, bydd y Post Brenhinol ond yn cynnwys y rhif yn y cyfeiriad post.
5. Trawsnewid adeilad presennol
- 5.1. Os caiff eiddo preswyl ei drawsnewid neu ei isrannu gan arwain at greu un pwynt mynediad lle ceir mynediad i bob fflat, bydd yn cael ei rifo yn hytrach na'i ddisgrifio neu ei nodi â llythrennau. Er enghraifft, Fflat 1 yn hytrach na Fflat Llawr Cyntaf neu Fflat A
- 5.2. Os caiff eiddo preswyl ei drawsnewid neu ei isrannu gan arwain at greu mwy nag un pwynt mynediad gyda drws ffrynt unigol ar gyfer pob fflat o'r stryd a ddynodwyd, bydd yn cynnwys ôl-ddodiad i'r prif gyfeiriad neu i'r cyfeiriad cragen. Er enghraifft bydd 'A', 'B', 'C' yn dod yn 10A, 10B, 10C
- 5.3. Bydd eiddo cyfun yn defnyddio rhifau'r eiddo gwreiddiol os yw rhifau eiddo'n cael eu defnyddio. Er enghraifft bydd cyfuno dau eiddo o'r enw 4 Stryd Fawr a 6 Stryd Fawr neu Uned 1 Stad Fasnachu ac uned 2 Stad Fasnachu yn arwain at greu'r cyfeiriadau newydd 4 – 6 Stryd Fawr ac Uned 1 – 2 Stad Fasnachu yn y drefn honno.
6. Ailrifo eiddo presennol
- 6.1. Byddwn yn ystyried ailrifo eiddo presennol pan fo newidiadau'n digwydd sy'n achosi (neu'n debygol o achosi) problemau o ran darparu gwasanaethau neu faterion a nodir gan y gwasanaethau brys. Gallai hyn fod yn berthnasol pan na ellir cynnwys datblygiad newydd o fewn y dilyniant rhifo presennol. Gan y

gall y broses gymryd llawer o amser ac y gall arwain at gostau, amhariad neu anghyfleustra ychwanegol i breswylwyr unigol, dylid ei osgoi lle bynnag fo modd.

6.2. Ar gyfer datblygiadau newydd o fewn stryd bresennol ffefrir defnyddio ôl-ddodiaid neu ailrifo lle mai dim ond ychydig o eiddo a fydd yn cael eu heffeithio yn hytrach nac ailrifo'r stryd gyfan. Fodd bynnag, nid yw hyn bob amser yn bosibl a bydd strydoedd yn cael eu hailenwi ac eiddo'n cael eu hailrifo yn ôl disgrisiwn Cyngor Sir Ddinbych.

## 7. Arddangos enwau a rhifau eiddo

7.1. Mae'n rhaid bod modd gweld pob rhif eiddo o'r briffordd. Gallai hyn gynnwys gosod rhifau ar bolion, gatiâu neu ffensys (ac nid o reidrwydd ar ddrws yr eiddo) er mwyn ei gwneud yn hawdd adnabod yr eiddo, yn enwedig os oes argyfwng.

## Adran D: Cyfeiriad Post

### 1. Neilltuo cyfeiriadau post

1.1. Nid yw neilltuo cyfeiriadu post yn gyfystyr â chadarnhad bod unrhyw adeilad neu adeiledd wedi'i awdurdodi dan Reoliadau Cynllunio, Adeiladu neu unrhyw Ddeddfwriaeth arall. Gallai perchnogion / preswylwyr wynebu'r posibilrwydd o gamau gorfodi os na sicrhawyd unrhyw gymeradwyaeth angenrheidiol.

1.2. Nid yw'r Awdurdod Lleol yn atebol nac yn gyfrifol am sicrhau fod unrhyw drydydd parti, gan gynnwys y Post Brenhinol, yn diweddarau gwybodaeth cyfeiriadau ar eu cronfeydd data.

1.3. Ni ellir rhoi cyfeiriad post i ddarn o dir neu adeilad ategol gwag, e.e. cae fferm. Dim ond eiddo ar y darn hwnnw o dir all dderbyn cyfeiriad at ddibenion ddosbarthu post a gwasanaethau

### 2. Codau post

2.1. Caiff pob elfen o gyfeiriad, ac eithrio cod post, eu diffinio gan Gyngor Sir Ddinbych. Eiddo Deallusol yr awdurdod yw rhifau ac enwau a gaiff eu neilltuo i eiddo a'r enwau swyddogol a gaiff eu neilltuo i strydoedd. Y Post Brenhinol sy'n rheoli'r broses o neilltuo codau post a rhaid iddynt eu darparu ar ôl

derbyn y cynllun enwi a rhifo swyddogol gan yr Awdurdod Lleol ond bydd y cod post yn cael ei gadw “wrth gefn” gan y Post Brenhinol hyd nes eu bod yn cael eu hysbysu bod preswylwyr yn yr eiddo.

2.2. Nid yw'r Post Brenhinol yn cyhoeddi cyfeiriadau ar eu gwefan nad ydynt wedi'u cwblhau a / neu â phreswylwyr. Mewn achosion penodol, mae hyn yn golygu bod posibilrwydd na fydd modd, am gyfnod, i unrhyw sy'n defnyddio gwefan y Post Brenhinol i ddilysu cyfeiriad, weld cyfeiriadau sydd wedi eu neilltuo a'u cyhoeddi'n swyddogol gan yr Awdurdod Lleol. Gall hyn hefyd olygu na fydd modd i sefydliadau eraill sy'n defnyddio cronfa ddata gyfeiriadau'r Post Brenhinol (Ffeil Cyfeiriadau Cod Post) wneud hynny er mwyn dilysu cyfeiriadau.

2.3. Dylai datblygwyr, perchnogion a thenantiaid fod yn ymwybodol bod posibilrwydd na fydd gan eu heiddo'r un cod post ag eiddo cyfagos neu sydd eisoes yn bodoli.

2.4. Cyfrifoldeb y Post Brenhinol yw cynnal gwybodaeth am godau post, ac unrhyw newid yn y dyfodol i godau post unigol neu sectorau cod post.

### 3. Enw'r Sir

3.1. Nid yw'r sir yn rhan o unrhyw gyfeiriad post ac felly nid yw newidiadau iddo wedi'u cynnwys o dan God Ymarfer Ffeil Cyfeiriadau Cod Post y Post Brenhinol.

3.2. Roedd hen siroedd post y Deyrnas Unedig, a elwir yn swyddogol bellach yn hen siroedd post, yn israniadau post a ddefnyddiwyd yn rheolaidd gan y Post Brenhinol tan 1996. Raison d'être y sir bost - yn wahanol i unrhyw fath arall o sir – oedd helpu didoli post drwy alluogi gwahaniaethu rhwng trefi post a oedd yn swnio'n debyg i'w gilydd. Ers 1996 mae hyn wedi'i wneud drwy ddefnyddio cod allanol (hanner cyntaf) y cod post yn lle hynny. Tynnwyd y sir bost o gronfa ddata'r Ffeil Cyfeiriadau Cod Post yn 2000 ac nid yw'n rhan o god ymarfer y Post Brenhinol ar gyfer newid cyfeiriadau.

3.3. Er gwaethaf hyn, gwerthir data sirol yn rheolaidd i gwmnïau, yn ôl pob golwg er mwyn iddynt dacluso eu data cyfeiriadau eu hunain. Gan mai data'r hen siroedd post oedd yr olaf i gael eu defnyddio'n rheolaidd, mae rhai sefydliadau wedi parhau i ddefnyddio'r hen ddata hwn fel rhan o gyfeiriadau post. Am y rheswm hwn mae sir Clwyd yn ymddangos ar rai eitemau o bost.

### 4. Hysbysu partneriaid mewnol ac allanol am newid i wybodaeth cyfeiriadau

4.1. Ar ôl cwblhau cais Enwi Strydoedd a Rhifo, bydd y Cyngor yn cynnwys y partneriaid canlynol fel rhan o'r broses hysbysu ffurfiol:

- Y Cynghorydd Sir lleol perthnasol
- Y Cyngor Dinas, Tref neu Gymuned berthnasol
- Gwasanaethau mewnol y Cyngor
- Gwasanaeth Ambiwlans Cymru,
- Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru,
- Heddlu Gogledd Cymru,
- Y Post Brenhinol,
- Y Gofrestrfa Tir.

## 5. Rhestr Cyfeiriadau Corfforaethol Cyngor Sir Ddinbych

- 5.1. Mae dwy brif ffynhonnell o wybodaeth am gyfeiriadau yn cael eu defnyddio ar draws y DU – y Rhestr Cyfeiriadau ac Enwau Strydoedd Cenedlaethol a Ffeil Cyfeiriadau Post y Post Brenhinol.
- 5.2. Fel awdurdod lleol, mae'n rhaid i'r Cyngor, dan Gytundeb Mapio'r Sector Cyhoeddus, reoli a chynnal Rhestr Cyfeiriadau ac Enwau Strydoedd Corfforaethol gan ddarparu diweddariadau ar newidiadau'n rheolaidd i ganolfan ganolog y Rhestr Cyfeiriadau ac Enwau Strydoedd Cenedlaethol priodol.
- 5.3. Y Rhestr Cyfeiriadau ac Enwau Strydoedd Corfforaethol, sy'n cael eu rheoli a'u cynnal gan bob awdurdod lleol ac unedol ledled Cymru, Lloegr a'r Alban, yw'r congfaen ar gyfer datblygu parhaus a darparu rhaglen isadeiledd cyfeiriadau cenedlaethol ar gyfer Prydain.
- 5.4. Rheolir y Rhestr Cyfeiriadau ac Enwau Strydoedd Cenedlaethol gan GeoPlace (partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig y sector cyhoeddus rhwng y Gymdeithas Llywodraeth Leol a'r Arolwg Ordnans) sy'n darparu ffynonellau wedi'u diweddaru a therfynol o gyfeiriadau cyfredol a data strydoedd sy'n eiddo i'r cyhoedd.
- 5.5. Cydnabyddir y Rhestrau Cenedlaethol fel elfennau hanfodol ar gyfer datblygu cofrestr gynhwysfawr o wybodaeth gywir am gyfeiriadau a strydoedd ar gyfer y sectorau cyhoeddus a phreifat.
